# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | Ymgynghoriad i newid elfennau o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed - 2025 |
| **Swyddog(ion) sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | Rox Mohammed/Michelle Perry/Amy Castle<br><br>Tîm Polisi Gofal Plant |
| **Adran:** | Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar - Is-adran gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar |
| **Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | Ruth Conway- Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar |
| **Ysgrifennydd y Cabinet/y Gweinidog sy'n gyfrifol:** | Dawn Bowden, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol |
| **Dyddiad Dechrau:** | Mawrth 2025 |

## ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir yn helpu darparwyr cofrestredig i fodloni'r gofynion rheoleiddio sy'n gysylltiedig â'u darpariaeth o dan Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ("y Safonau") yn mynnu bod yn rhaid i bob person cofrestredig roi sylw i'r Safonau hyn a bodloni gofynion rheoleiddio. Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yw'r corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am sicrhau bod y safonau'n cael eu bodloni.

Rhaid ymgynghori ar unrhyw newidiadau polisi sylweddol i'r Safonau a mesur eu heffaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau, darparwyr a grwpiau nodweddion gwarchodedig. Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi Adran 1 Cyflwyniad ac Adran 8 Casgliad ynghyd ag Asesiadau Effaith penodol ar gyfer Hawliau Plant a'r Gymraeg.

**Adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol 2024 - 2025**

Rydym wedi ymrwymo i adolygu'r Safonau yn rheolaidd fel eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben. Mae'n bwysig nodi eu bod eisoes yn cynnwys gofynion a safonau y mae'n rhaid i ddarparwyr eu bodloni mewn perthynas â hawliau plant, cyfle cyfartal a dewis iaith y plant perthnasol yn eu gofal. Mae'r Safonau sy'n ymwneud â'r meysydd allweddol hyn yn cael eu diweddaru'n rheolaidd fel rhan o broses adolygu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Cafodd y Safonau eu diweddaru ddiwethaf yn 2023 ar ôl ymarfer adolygu ac ymgynghori. Gwnaed nifer o newidiadau i'r Safonau mewn ymateb i 20 o argymhellion a nodwyd yn adroddiad yr adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn 2019. Ni chafodd pob un o'r 20 argymhelliad eu datblygu gan fod y gwaith a oedd yn gysylltiedig â nhw wedi'i wreiddio yn rhaglenni gwaith ac adolygiadau eraill Llywodraeth Cymru, ac roedd y rhain naill ai ar y gweill neu heb gael eu hadrodd arnynt ar y pryd.

Ar gyfer yr adolygiad hwn, rydym wedi ystyried canfyddiadau'r canlynol fel rhan o'r adolygiad a'r ymgynghoriad hwn o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol: *Adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn 2019; Yr Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant; Yr Adolygiad Gweinidogol o Chwarae.*

Prif ffocws yr adolygiad o'r Safonau yw sicrhau diogelwch a llesiant parhaus y plant sy'n derbyn gofal a chefnogi cynaliadwyedd y sector gofal plant a gwaith chwarae. Ein nodau ar gyfer yr adolygiad hwn yw datblygu'r canlynol:

- Safonau i gefnogi darpariaeth chwarae, dysgu a gofal o ansawdd uchel.
- Safonau sy'n rhoi sicrwydd i rieni bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion a llesiant plant.
- Safonau i alluogi darparwyr i fodloni rheoliadau perthnasol.
- Safonau sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ac sy'n nodi amodau ar gyfer gofal plant a chwarae o ansawdd uchel.
- Safonau cymesur

## Datblygu'r cynnig

Er mwyn cyflawni nodau'r adolygiad hwn o'r Safonau, datblygu cynigion cadarn a darparu cyfleoedd i fynegi pryderon, sefydlwyd Grŵp Cynghori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a gweithgorau i weithio gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r grwpiau'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r sector ac maent wedi chwarae rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu cynigion yr ymgynghoriad gan gynnwys asesu'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau a darparwyr.

Mae ein Grŵp Cynghori a'n gweithgorau yn cynrychioli buddiannau gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru. Maent yn cynnwys consortiwm CWLWM[1], Arolygiaeth Gofal Cymru, Chwarae Cymru, timau gofal plant a chwarae awdurdodau lleol a sefydliadau eraill. Mae ein gwaith ar y cyd wedi tynnu sylw at faterion eraill sy'n dod i'r amlwg ac yn achosi rhwystrau i'r sector, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y cynigion, ee Safon 11: Meddyginiaeth a Safon 13 (GD): Person addas (gofal dydd).

## Ymgysylltu

Yn ogystal ag ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad blaenorol o'r Safonau, adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae a'r adolygiad annibynnol o'r adroddiad gwarchod plant, rhan o'n gwaith oedd deall sut mae'r Safonau'n cael eu hystyried yn ymarferol ar hyn o bryd. Roedd hyn er mwyn ystyried unrhyw heriau, rhwystrau ac effeithiau ar ddarparwyr, sefydliadau ambarél, rhieni/gofalwyr a phlant. Isod ceir trosolwg eang o'n hymgysylltiad â'r carfannau hyn cyn yr ymgynghoriad.

### *Darparwyr*

Yn 2024, fe wnaethom gymryd rhan mewn gweithdai wedi'u hwyluso gan Chwarae Cymru a chonsortiwm CWLWM a'u haelodau i ddysgu mwy am eu barn ar y Safonau.

Ar ôl ymgysylltu â darparwyr a sefydliadau ymbarél gofal plant a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Safonau, gwelsom fod y Safonau, at ei gilydd, yn addas i'r diben, yn hawdd eu defnyddio ar y cyfan, yn gosod meincnodau clir ac yn gweithredu fel fframwaith rhesymegol, gan roi sicrwydd i ddarparwyr a rhieni/gofalwyr. Roedd darparwyr yn tueddu i fynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol y Safonau a thrwy hynny effeithio'n gadarnhaol ar blant.

Cafwyd awgrymiadau ar gyfer gwelliannau y gellid eu gwneud i adlewyrchu ac alinio ag adnoddau o dan Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Byddai adolygu'r Safonau yn rheolaidd yn helpu i adlewyrchu arferion cyfredol a'u diweddaru. Mae'r meysydd i'w nodi'n cynnwys y gofynion ar gyfer darparwyr gwaith chwarae mynediad agored a oedd yn

[1] *Mae consortiwm CWLWM yn cynrychioli diddordebau darparwyr gofal plant yng Nghymru, sef y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd;* Clybiau Plant Cymru Kids' Club, *Coram Pacey Cymru; Blynyddoedd Cynnar Cymru*

teimlo bod angen i'r Safonau fod yn gymesur ac adlewyrchu natur unigryw gwaith chwarae mynediad agored. Hefyd, gellid darparu'r ddogfen mewn fformat ar-lein mwy hygyrch.

### *Rhieni a phlant*

Er mwyn cael trosolwg eang a deall sut beth yw gofal plant da o safbwynt rhieni a phlant, buom yn gweithio gyda Plant yng Nghymru drwy grwpiau ffocws a chwestiynau wedi'u fframio ar gyfer plant a rhieni. Roedd ein cwestiynau'n ymwneud â'r hyn a oedd yn bwysig i'r ddau grŵp wrth gael gafael ar ofal plant. Dyma'r themâu cyffredinol a ddaeth i'r amlwg o'r ymgysylltu hwn:

*Rhieni*

- Yr angen am system gofal plant sy'n hygyrch, yn gynhwysol ac yn cyd-fynd ag anghenion amrywiol teuluoedd ledled Cymru.
- Yr angen i ofal plant ddarparu amgylchedd diogel y gellir ymddiried ynddo i blant ddysgu, cymdeithasu a datblygu.
- Mae diogelwch, fforddiadwyedd a hyfforddiant staff mewn lleoliadau gofal plant yn bwysig iawn.
- Yr angen i ddiwallu anghenion penodol pob plentyn, yn enwedig y rheini sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a phlant anabl.
- Mae'r rhwystrau rhag cael gafael ar ofal plant yn cynnwys costau uchel, argaeledd cyfyngedig, a chymorth annigonol i deuluoedd â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Soniodd teuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig am yr angen am fwy o ystyriaethau diwylliannol a chrefyddol, fel bwyd halal ac ymwybyddiaeth o arferion magu plant
- Nodwyd bwlch sylweddol o ran deall y gwahaniaeth rhwng gofal plant 'cofrestredig' a 'heb eu cofrestru', gyda llawer o rieni'n cael trafferth dod o hyd i wybodaeth am leoliadau cofrestredig a'i dilysu.

*Plant ifanc*

- Roedd plant yn gweld gofal plant fel rhywle i chwarae a chymdeithasu, ac roedd hyn yn gwella eu llesiant
- Mae'r bobl sy'n gofalu am blant mewn lleoliadau yn ganolog i'w hymdeimlad o ddiogelwch, sicrwydd a hapusrwydd. Siaradodd y plant yn agored am aelodau o staff a'r hyn roeddent yn ei hoffi amdanynt; mae'r cysylltiadau hyn yn hanfodol i blant ifanc. Roeddent yn deall ac yn cydnabod sut mae'r ymarferwyr yn eu helpu i wneud pethau, gofalu amdanyn nhw a gwrando arnyn nhw.
- Dywedodd y plant eu bod yn teimlo'n drist neu'n ofidus mewn lleoliadau o bryd i'w gilydd, mewn ymateb i ddigwyddiad neu deimlad penodol. Roedd hyn yn cynnwys, os nad oeddent yn hoffi gweithgaredd neu fwyd penodol; os oedd y tywydd yn wlyb neu'n oer, os oeddent wedi brifo ac os nad oeddent yn gallu gwneud y pethau maent yn eu mwynhau fwyaf. Dywedodd mwyafrif bach eu bod yn gweld eisiau bod gyda'u teulu.
- Yn aml, nid yw gofal plant yn ddewis i blant ifanc, ac maent yn mynd am fod rhywun yn mynd â nhw yno. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o'r farn bod hwn yn

brofiad hapus a hwyliog iddynt ei fwynhau ac yn lle i chwarae a gwneud cysylltiadau.

*Plant hŷn*

- Roedd y plant yn mynegi eu bod yn fodlon iawn gyda'r amrywiaeth o weithgareddau a'r amgylcheddau cefnogol a dymunol a ddarperir.
- Tynnodd y plant sylw at feysydd allweddol i'w gwella, fel cynhwysiant, tegwch, a diogelwch corfforol ac emosiynol y lleoliadau.
- Roedd amgylcheddau sy’n meithrin creadigrwydd, yn datblygu sgiliau, ac yn creu cysylltiadau cymdeithasol, gan gyd-fynd hefyd â diddordebau plant a blaenoriaethau teuluol, yn bwysig i blant.
- Roedd y blaenoriaethau i blant yn cynnwys pwysleisio ar hwyl, diogelwch a chynhwysiant.

Yn gyffredinol, mae'r adborth yn tynnu sylw at rôl hanfodol lleoliadau gofal plant a chwarae o ran meithrin cydbwysedd rhwng hwyl, dysgu a diogelwch, darparu cymorth hanfodol i deuluoedd, a hyrwyddo llesiant a datblygiad cyfannol ymysg plant.

Mae'r gwaith ymgysylltu wedi darparu ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth i ystyried beth sy'n gweithio'n dda a mwy o feysydd y mae angen i ni eu hystyried mewn adolygiadau yn y dyfodol a ffrydiau gwaith eraill.

**Ymgynghori**

Ar ôl yr adolygiad, mae’r ymgynghoriad wedi ystyried cynigion i newid elfennau o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi’i Reoleiddio i blant hyd at 12 oed. Mae'r prif reswm dros ddatblygu'r cynigion hyn yn gysylltiedig ag adolygiadau blaenorol Llywodraeth Cymru sydd wedi adrodd ar eu canfyddiadau a'u hargymhellion. Yr adolygiadau hyn oedd adroddiad yr Adolygiad o’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol 2019; adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Chwarae 2023; a’r Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant 2023.

Un o fanteision cynnal yr adolygiad a'r ymgynghoriad hwn yw caniatáu i Lywodraeth Cymru ystyried y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn feirniadol gyda chynulleidfa eang, gan sicrhau eu bod yn cael eu gwella'n barhaus, eu bod yn addas i'r diben o ran cefnogi gofal plant o ansawdd da ac nad ydynt yn achosi rhwystrau i ymarfer.

Bydd y cynigion yn destun ymgynghoriad 12 wythnos pan ofynnir am farn rhanddeiliaid, darparwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol ar y newidiadau arfaethedig i'r Safonau. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei sianeli digidol a'i rhwydweithiau presennol ar draws yr holl feysydd polisi perthnasol i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ac i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl.  Bydd fersiwn Hawdd ei Ddarllen ar gael.

Bydd hyn yn cynnwys sefydliadau sy'n wynebu teuluoedd a'r rheini sy'n cynrychioli buddiannau plant yng Nghymru, yn ogystal â'r Comisiynydd Plant, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd y Gymraeg. Bydd AGC, Gofal Cymdeithasol Cymru, consortiwm gofal plant CWLWM, Chwarae Cymru ac awdurdodau lleol yn cefnogi'r broses ymgynghori, gan sicrhau ei bod yn cael cyhoeddusrwydd ymysg darparwyr gofal plant a gwaith chwarae ar draws y sector. Bydd geiriad canllawiau terfynol y Safonau’n seiliedig ar adborth a geir o'r ymgynghoriad.

Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y cynigion canlynol gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid yn ystod tymor yr hydref 2025. Ar ôl dadansoddi'r adborth, byddwn yn cyhoeddi Crynodeb o'r Ymateb erbyn tymor y gwanwyn 2026 ac yn gwneud y newidiadau angenrheidiol fesul cam ar ôl hynny gyda chymorth ein rhanddeiliaid.

**Cynigion yr Ymgynghoriad**

Mae holl gynigion yr ymgynghoriad wedi'u nodi isod o dan faes pwnc gyda thystiolaeth i egluro'r rheswm dros unrhyw newidiadau. Mae rhagor o fanylion am bob cynnig a chwestiynau'r ymgynghoriad ar gael yn [dogfen yr ymgynghoriad/enwi'r adran]. Trafodir effaith gyffredinol y cynigion hyn yn y casgliad (adran 8) a'r Asesiadau Effaith drafft perthnasol a gyhoeddir fel rhan o'r ddogfen hon (Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r Gymraeg).

**Strwythur a gosodiad y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Cyhoeddwyd adroddiad ar ôl adolygu'r Safonau yn 2019. Roedd hyn yn cynnwys dau argymhelliad yn ymwneud â safonau penodol ar strwythur, cyflwyniad a math.

*Argymhelliad 19: Ystyried gwaith pellach gyda'r sector i edrych yn fanylach ar rai o fanteision ac anfanteision dull mwy cymesur neu benodol o ymdrin â safonau;*

*Argymhelliad 20: Edrych ar ffyrdd o symleiddio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol presennol*

Rydym wedi ymgysylltu a chydweithio â'n Grŵp Cynghori ar y Safonau ar y ddau argymhelliad hyn. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar fersiwn hygyrch ar-lein o'r Safonau a fydd yn haws ei ddefnyddio ar gyfer gwahanol rannau o'r sector. Bydd y fersiwn hwn yn cael ei gynnal ar www.llyw.cymru ac yn cael ei gyhoeddi gyda gofynion rheoleiddio perthnasol a gwybodaeth am arferion gorau.

- **Ymgynghori ar enghraifft ddrafft (ee Safon 12 Bwyd a Diod) o sut y gellid cyflwyno'r Safonau ar-lein i wella strwythur, gosodiad a phrofiad defnyddwyr**

**Darpariaeth o Ansawdd Uchel - *Beth rydym yn ei olygu wrth ddarpariaeth o Ansawdd Uchel?***

Cyhoeddwyd **Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar** ym mis Mawrth 2024, ac mae'n nodi gweledigaeth ar gyfer sut gall lleoliadau gofal plant, gwaith chwarae ac addysg feithrin cyn oedran ysgol statudol (0-5 oed) gefnogi datblygiad anghenion cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol babanod a phlant ifanc. Fel rhan o weledigaeth tymor hwy Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, a gwreiddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau plant wrth lunio polisïau, rydym yn bwriadu ymgynghori ar y canlynol:

- **Ymgynghori ar gynnig i ddiweddaru'r bennod agoriadol yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol - "Beth rydym yn ei olygu wrth ddarpariaeth o Ansawdd Uchel" i gryfhau ymhellach ansawdd gwybodaeth a gofynion fel eu bod yn cyd-fynd ag egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.**

**Diffiniadau**

Roedd Adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Chwarae (argymhelliad 11.3 yr Adolygiad Gweinidogol o Chwarae) yn gofyn i Lywodraeth Cymru adolygu a diweddaru'r diffiniad o waith chwarae mynediad agored a lle mae'n digwydd, a gwneud diwygiadau perthnasol i'r Safonau ar gyfer Darpariaeth Gofal Plant wedi'i Reoleiddio.

*11.3. Adolygu a diweddaru'r diffiniad o waith chwarae mynediad agored a ble mae'n digwydd, a gwneud diwygiadau perthnasol i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

O'r gwaith ymgysylltu gydag aelodau o Chwarae Cymru a Chyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru, sefydlwyd diffiniad newydd ar gyfer Gwaith Chwarae Mynediad Agored ac rydym yn ymgynghori ar gymeradwyo'r diffiniad hwn ac a yw'n adlewyrchu'r ddarpariaeth yn gywir.

Ar yr un pryd, ac er mwyn bod yn gyflawn, rydym yn adolygu diffiniadau eraill yn y Safonau ac yn gofyn am farn ynghylch a fyddai'n ddefnyddiol darparu enghreifftiau o'r mathau o sectorau.

- **Ymgynghori ar gymeradwyo diffiniad wedi'i ddiweddaru o “waith chwarae mynediad agored”**

## Safonau Gwaith Chwarae Mynediad Agored

Roedd yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae wedi adrodd ar ei ganfyddiadau ym mis Tachwedd 2023 ac roedd yn cynnwys argymhelliad allweddol *11: Adolygu rheoliadau a gorchmynion gwarchod plant a gofal dydd sy'n ymwneud â gwaith chwarae.* Derbyniwyd argymhellion penodol 11.1 a 11.3 (gweler y Diffiniadau uchod) a oedd yn effeithio ar chwarae mynediad agored yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

*11.1: Adolygu ymarfer a throsglwyddiad cyfundrefn arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n ymwneud â gwaith chwarae i wella ei addasrwydd i'r diben o fewn y rheoliadau cyfredol. Dylai hyn hysbysu newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a rheoleiddio ac archwilio'r holl leoliadau gwaith chwarae a dylai hefyd gynnwys datblygiad Safonau Gofynnol Cenedlaethol unigol ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored.*

Mae dwy ran i argymhelliad 11.1. Mae'r gwaith sy'n ymwneud â threfn arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru yn ffrwd waith ar wahân gan Lywodraeth Cymru ac nid yw'n rhan o'r ymgynghoriad hwn. Bydd adroddiad ar wahân ar hyn fel rhan o gylch adrodd yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae.

Mae'r ail ran yn ymwneud â **safonau darpariaethau chwarae mynediad agored** annibynnol ac mae'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys datblygu safonau pwrpasol cymesur ar gyfer lleoliadau chwarae mynediad agored i adlewyrchu natur unigryw'r ddarpariaeth hon ac i ymateb i argymhelliad 11.1. Rhan o'r gwaith hwn oedd ystyried y safonau presennol sy'n achosi rhwystrau rhag cofrestru darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored ac atal gostyngiad pellach yn nifer cofrestredig y math hwn o ddarpariaeth ar yr un pryd â pharhau i gydymffurfio â gofynion rheoleiddio fel y nodir yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010.

Ar ôl adolygu'r Safonau, rydym o'r farn y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn gofyn am newidiadau i'r geiriad yn unig ac na fydd angen ymgynghori'n llawn arnynt. Fodd bynnag,

ar gyfer **Safon 10**: **Gofal iechyd,** yn benodol safonau darpariaeth chwarae mynediad agored **10:28, 10:29** a **Safon 13 (GD): Person addas (Gofal Dydd) Cymwysterau Eraill Staff - 13.9 (GD) ar gyfer Chwarae Mynediad Agored,** mae angen i ni edrych ymhellach ar effeithiau unrhyw newidiadau ac ystyried unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn sgil newidiadau.  Mae'r wybodaeth isod yn ymdrin â'r dystiolaeth y tu ôl i'r cynigion penodol hyn.

**Hyfforddiant Cymorth Cyntaf – Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored: Safon 10: Gofal Iechyd – Safonau 10:28 a 10:29**

Cymorth Cyntaf 41. Mae Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981 yn nodi’r gofynion sy'n ymwneud â gweithwyr. *Argymhellir bod ysgolion yn trin disgyblion fel pe baent yn weithwyr cyflogedig at ddibenion cymorth cyntaf, a’u bod yn darparu deunyddiau cymorth cyntaf ac arbenigedd fel sy'n briodol ar ôl asesu risg.*

*Dyletswyddau cyfreithiol cyflogwyr*

Mae Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981 yn mynnu bod cyflogwyr yn darparu digon o offer, cyfleusterau a staff priodol i sicrhau bod eu gweithwyr yn cael sylw ar unwaith os ydynt yn cael eu hanafu neu'n mynd yn sâl yn y gwaith. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i bob gweithle gan gynnwys y rhai sydd â llai na phump o weithwyr a phobl hunangyflogedig.

*Sut mae Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981 yn berthnasol i ddarpariaeth cymorth cyntaf mewn ysgolion?*

Mae cyflogwyr yn gyfrifol am ddarparu offer, cyfleusterau a staff cymorth cyntaf priodol i’w gweithwyr - mae hyn yn cynnwys ysgolion, gan eu bod yn weithleoedd. Er nad yw'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr ddarparu cymorth cyntaf i unrhyw un arall, mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn annog yn gryf bod cyflogwyr yn ystyried pobl nad ydynt yn gweithio iddynt wrth gynnal eu hasesiad o anghenion cymorth cyntaf ac i ddarparu ar eu cyfer.

Mae Chwarae Cymru wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru nad oes gofyniad mewn ysgolion yng Nghymru i’r holl staff gael hyfforddiant cymorth cyntaf a bod plant yn aml yn cael eu gwasgaru'n ehangach mewn ysgol nag mewn lleoliad chwarae mynediad agored lle byddent yn agos at y swyddog cymorth cyntaf enwebedig y rhan fwyaf o'r amser.  Mae darpariaeth chwarae mynediad agored yn ystod gwyliau yn unig (y mae Llywodraeth Cymru yn ei hannog fel rhan o'n Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae) yn cael trafferth rhoi'r holl staff dros dro drwy'r hyfforddiant Cymorth Cyntaf gofynnol.

Mae Chwarae Cymru yn cytuno y byddai'n fuddiol cael cynifer â phosibl o swyddogion cymorth cyntaf, a gellid cyflawni hyn fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus, cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf mewn gweithle arall ac asesu anghenion cymorth cyntaf yn ôl y math o wasanaeth a'r plant dan sylw yn hytrach na’i wneud yn ofyniad rhagnodedig yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

**Safon 13 (GD): Person addas (Gofal Dydd) Cymwysterau Staff Eraill - 13.9 (GD) Ar gyfer Chwarae Mynediad Agored**

Mae Chwarae Cymru wedi dweud ei bod yn anodd dod o hyd i staff i fodloni gofynion “staff cymwys” y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.  Mae gofynion penodol y Safonau o ran cymwysterau yn groes i natur y ddarpariaeth lle mae angen staff dros dro am gyfnodau gweithredu cyfyngedig.  Yn aml, nid yw'r galw i gwblhau cymhwyster yn werth yr ymdrech ac mae hyn yn cyfrannu at leihau nifer y darpariaethau chwarae mynediad agored sydd wedi'u cofrestru.

Felly, byddwn yn cynnwys cynigion i ddiwygio’r gofynion hyfforddiant cymorth cyntaf, yn benodol Hyfforddiant Cymorth Cyntaf - Chwarae Mynediad Agored, safonau 10:28, 10:29 a 10.30 a chanrannau’r staff cymwys o dan Safon 13(GD): Person addas (Gofal Dydd) (staff eraill) mewn darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored yn yr ymgynghoriad hwn.

- **Ymgynghori ar Safon 10: Gofal iechyd – Cymorth Cyntaf Chwarae Mynediad Agored 10:28, 10:29 a 10.30 i newid y gofynion ar gyfer Cymorth Cyntaf Pediatrig i'w gwneud yn fwy cymesur ar gyfer gwaith chwarae mynediad agored**

- **Ymgynghori ar Safon 13 (GD): Person addas (Gofal Dydd) Cymwysterau Staff Eraill - 13.9 (GD) ar gyfer Chwarae Mynediad Agored**

## Meddyginiaeth

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gylchythyr C011/2024 ym mis Rhagfyr 2024 i ymateb i alwadau gan y sector ac Arolygiaeth Gofal Cymru am eglurder ynghylch gweinyddu hylif parasetamol nad yw ar bresgripsiwn (“hylif parasetamol”). Gwnaed hyn fel mater o frys i ddiogelu iechyd a llesiant plant sy’n mynd yn sâl mewn lleoliadau gwarchod plant a gofal dydd cofrestredig (“lleoliadau cofrestredig”).  Ar hyn o bryd, nid yw Safon 11: Meddyginiaeth y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn mynd i'r afael yn llawn â’r trefniadau y gellir eu gwneud ynghylch meddyginiaeth heb fod ar bresgripsiwn ac nid yw'n darparu canllawiau ychwanegol ar drefniadau darparu Hylif Parasetamol yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn y cylchlythyr.  Rydym yn bwriadu ymgynghori'n ffurfiol ar newidiadau i'r safon berthnasol ac ymgorffori'r wybodaeth o'r cylchlythyr mewn atodiad fel canllawiau ychwanegol i gefnogi darparwyr cofrestredig.

- **Ymgynghori ar Safon 11: Meddyginiaeth a darparu canllawiau ychwanegol ar gyfer rhoi hylif parasetamol i blant sâl ac adlewyrchu bod modd prynu parasetamol o fferyllfeydd a manwerthwyr eraill heb fod angen presgripsiwn gan feddyg teulu.**

## Defnyddio Staff

Mae gan Lywodraeth Cymru dystiolaeth gan y sector a chonsortiwm CWLWM ar yr angen i egluro sut mae canrannau'r staff cymwys, y staff heb gymhwyso a'r gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio'n effeithiol ar draws y lleoliad ac a yw'r canrannau sylfaenol a amlinellir yn y safonau fesul ystafell neu ar draws y lleoliad.

Cafwyd ceisiadau hefyd am eglurhad ynghylch pryd mae lleoliadau wedi cyflogi staff a gwirfoddolwyr ychwanegol i gefnogi'r gwaith o ddiwallu anghenion unigol plant. Mewn rhai achosion, mae'n ymddangos bod hyn yn gostwng canrannau'r cymarebau o ran staff cymwys, staff anghymwys a gwirfoddolwyr yn gyffredinol.

Y cynnig yw ceisio barn ar ychwanegu geiriad at Safon 13 (GD): Person addas, i roi eglurhad ar ddefnyddio staff ar draws y lleoliad.  Er eu bod yn darparu gwybodaeth mewn achosion lle gallai lleoliadau gynnwys gwirfoddolwyr ychwanegol, sy'n mynd y tu hwnt i'r cymarebau gofynnol o ran oedolion:plant (i gefnogi'r gwaith o ddiwallu anghenion unigol plant), ni ddylid ystyried hyn yn ddirywiad os yw'n gwella'r canlyniad a'r effaith ar anghenion plant.

Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y safon Gofal Dydd canlynol:

**Safon 13 (GD): Person Addas (gofal dydd)**

- **Ymgynghori i roi eglurhad ynghylch defnyddio staff yn effeithiol ar draws y lleoliad.**

## Cynorthwywyr gwarchod plant

Mae Coram PACEY Cymru (PACEY Cymru gynt), sy'n cynrychioli gwarchodwyr plant yng Nghymru, wedi tynnu sylw at y ffaith bod rhai gwarchodwyr plant sy'n gweithio gyda chynorthwywyr gwarchod plant wedi cael trafferth recriwtio a chadw staff. Cynigir y bydd rhywfaint o hyblygrwydd (o fewn amserlen benodol) yn helpu i gynnal parhad yn y sector gwarchod plant.

Bydd diwygio Safon 13.4 (GP) i ganiatáu cyflogi cynorthwywyr gwarchod plant heb gymhwyster ffurfiol ar yr amod eu bod yn gweithio at gyflawni'r cymhwyster gofynnol am hyd at chwe mis, yn lleddfu'r pwysau ar recriwtio.  Ni fydd cynorthwyydd gwarchod plant yn cael ei adael heb oruchwyliaeth nes cyflawnir y cymhwyster hwn.

Ar ben hynny, mae angen i ni roi sylw i'r cyfnod o amser y gellir gadael cynorthwywyr gwarchod plant yn llwyr gyfrifol am y plant. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru a Coram Pacey Cymru yn nodi bod gwarchodwyr plant wedi mynegi'r angen am ganllawiau cliriach ar y mater hwn. Gallai terfyn amser o ddwy awr fod yn arweiniad cliriach a chefnogi gwarchodwyr plant i reoli eu gwasanaeth ynghyd â sicrhau canlyniadau da i blant.  Dyma sut byddwn yn ymgynghori:

- **Ymgynghori i ddarparu amserlen i gynorthwywyr gwarchod plant sydd newydd eu penodi ei dilyn i gwblhau'r cymhwyster gofynnol o fewn 6 mis i'r adeg pan fydd yn dechrau'r swydd**

- **Ymgynghori ar y cyfnod hiraf y gellir gadael cynorthwywyr gwarchod plant yn llwyr gyfrifol am blant**

## Cymarebau gwarchod plant

Cynhaliwyd Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant (2023) i ddeall yn well y rhesymau dros y gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant.  Roedd Argymhelliad 15 yn nodi *y dylai Arolygiaeth Gofal Cymru ystyried cyflwyno mwy o hyblygrwydd o ran y ffordd y gall gwarchodwyr plant ddefnyddio cymarebau staffio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod cyfnodau byr o'r dydd er mwyn eu galluogi i ddelio'n well â'r galw am ofal plant y tu allan i oriau ysgol, cyn ac ar ôl ysgol, yn ogystal â gofal cofleidiol sy'n gorgyffwrdd yn ystod amser cinio.*

Yn dilyn dadansoddiad trylwyr gyda Grŵp Cynghori'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, mae cynigion wedi cael eu datblygu i ddarparu hyblygrwydd gan osgoi effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Mae Llywodraeth Cymru felly yn cynnig ymgynghori ar y safon hon:

**Safon 15 (GP): Cymarebau (Gwarchodwr Plant)**

- **Ymgynghori i newid y cymarebau ar gyfer gwarchodwyr plant a chynnig rhywfaint o hyblygrwydd o ran plant o dan 5 oed.**

## Pum Ffordd o Weithio (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)

### *Tymor hir*

Mae'r sector gofal plant a gwaith chwarae yn rhan werthfawr a hanfodol o gymdeithas sy'n cefnogi teuluoedd a'r economi sylfaenol. Mae gwella mynediad teuluoedd at ddarpariaeth gofal plant a chwarae o ansawdd uchel yn rhan allweddol o gefnogi ymrwymiadau'r Strategaeth Tlodi Plant i ddileu tlodi plant a gwella cyfleoedd bywyd plant. Mae profiadau gofal plant yn gyfle i blant ddysgu drwy chwarae, cefnogi eu datblygiad gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol a chynnal eu hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant.

Diben y Strategaeth Tlodi Plant (Gorffennaf 2024) *yw edrych i'r dyfodol a chynllunio ar ei gyfer, a phennu amcanion a fydd yn helpu i ddileu tlodi plant ac effeithiau gwaethaf tlodi yng Nghymru dros y degawd nesaf neu fwy.*

Mae ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys rhaglenni gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth sy'n dod o dan adain Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant i rieni sydd mewn addysg a hyfforddiant.

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cyfrannu at yr ymrwymiadau, y strategaethau a'r rhaglenni hyn drwy sicrhau bod safonau'n galluogi lleoliadau cofrestredig i ddarparu chwarae, dysgu a gofal o ansawdd uchel i bob plentyn ni waeth beth fo'i gefndir.

Cyhoeddwyd ein Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ar 15 Mawrth 2024. Mae'r cynllun yn rhoi'r plentyn a'i ddatblygiad wrth galon popeth a wnawn, ac mae'r cynigion yn cefnogi'r weledigaeth tymor hir ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.

Fel rhan o'n cynigion, rydym yn bwriadu cryfhau egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn y Safonau i gefnogi gwerthoedd ac uchelgeisiau'r cynllun hwn ac i roi lle blaenllaw i lais y plentyn.

Mae'r Safonau yn rhoi sicrwydd parhaus i rieni a phlant ynghylch ansawdd y gofal y dylent ddisgwyl ei gael gan ddarparwyr gofal plant cofrestredig, hy gan gynnwys staff cymwysedig, amgylchedd addas, a pholisïau gweithredol perthnasol.

Yn bwysig, mae'r Safonau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn datblygu ochr yn ochr â newidiadau yn y sector a datblygiadau i'r polisi gofal plant a chwarae yn y blynyddoedd cynnar.

Bwriad y cynigion yw cefnogi'r sector gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig a sicrhau manteision i ddarparwyr, plant a theuluoedd yn y tymor byr a'r tymor hir.

Bydd y cynigion yn helpu i wireddu'r nodau llesiant sy'n ymwneud â Chymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru lewyrchus a Chymru â diwylliant bywiog.

***Integreiddio***

Mae gweledigaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru yn y cynllun plant a phobl ifanc yn mynd i'r afael â phwysigrwydd bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, gan gynnwys cymorth a gwasanaethau blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel i rieni neu ofalwyr.

Nod cyffredinol y cynllun yw bod pob plentyn yn cael profiad dysgu a gofal difyr, o ansawdd uchel ym mha bynnag leoliad addysg a gofal plant mae'n ei fynychu. Mae hyn yn cynnwys gwell mynediad at addysg gynnar a gofal plant sy'n diwallu eu hanghenion a'u hamgylchiadau amrywiol unigol.

Mae holl gynlluniau ac ymrwymiadau'r rhaglen yn integreiddio â'r ymgyrch i gefnogi gofal plant hygyrch o ansawdd uchel sy'n cael ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gefnogi gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.

Mae'r adolygiad o'r Safonau wedi cael ei gynnal ar y cyd ag adolygiadau eraill Gofal Plant a Chwarae Blynyddoedd Cynnar o'r Gorchymyn Eithriadau a'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant i sicrhau cysondeb ac integreiddio. Mae gweithio fel hyn yn ein galluogi i ystyried y materion yn systematig a deall unrhyw effeithiau.

***Atal***

Gall mynediad at ofal plant o ansawdd uchel helpu i wella iechyd a llesiant plant, a gall helpu plant i ddysgu am yr amgylchedd a'r byd o'u cwmpas, gan gyfoethogi eu bywydau ar eu taith i fod yn oedolion.

Ein gweledigaeth yw bod plant a phobl ifanc yn gallu cael gafael ar wasanaethau gofal plant a chwarae rheoledig sy'n ddiogel, o ansawdd uchel ac sy'n cael eu rhedeg gan weithlu medrus a phrofiadol.

Gall rhieni fod yn dawel eu meddwl bod eu plant yn cael gofal mewn amgylcheddau diogel sy'n cael eu rhedeg yn dda. Felly, bydd gan deuluoedd opsiynau wrth ddewis gofal plant er mwyn gallu cydbwyso eu gwaith a blaenoriaethau eu teulu. Mae plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr yn ifanc i ddatblygu'n gymdeithasol ac yn wybyddol mewn amgylchedd sy'n diwallu eu hanghenion.

Bydd darparwyr cofrestredig yn elwa o ganllawiau clir a diamwys ar y gofynion y mae'n rhaid iddynt eu bodloni o dan reoliadau ac archwiliadau.

***Cydweithio***

Fel y nodir yn yr adran ymgysylltu uchod, rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector gofal plant a gwaith chwarae i ystyried a dadansoddi'r argymhellion yn fanwl. Rydym wedi annog her ac wedi cael cyngor arbenigol gan randdeiliaid ar ystyried sut gallai cynigion effeithio ar argaeledd, diogelwch ac ansawdd y gofal a ddarperir yn y tymor hir, a chynaliadwyedd y sector ei hun.

***Cynnwys***

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i ddadansoddi a all cynigion weithio'n ymarferol a'u profi gyda Grŵp Cynghori'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol i archwilio unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Ystyriwyd Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru a CCUHP drwy gydol y gwaith ac mae egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar wedi llywio'r ystyriaeth o'r effaith ar blant 0-5 oed.

Mae ein gwaith wedi cynnwys ymgysylltu â darparwyr gofal plant a gwaith chwarae, plant, rhieni a rhanddeiliaid allweddol i gasglu tystiolaeth a safbwyntiau am y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r wybodaeth hon wedi helpu i lywio ein cynigion neu ffyrdd o fynd i'r afael ag argymhellion neu bryderon ac mae wedi bod yn ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth i ni.

Rydym wedi ymrwymo i gynnwys ein rhanddeiliaid wrth nodi a mynd i'r afael â heriau er mwyn helpu i lywio gwelliannau parhaus i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

***Costau ac Arbedion***

Bach iawn yw costau cyffredinol y cynigion hyn, ac mae'r ffocws ar adlewyrchu argymhellion adolygiadau rydym wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â nhw. Mae hyn yn cynnwys gwella safonau i gael gwared ar unrhyw rwystrau a rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr gofal plant sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith adolygu. Mae hyn yn cynyddu eglurder drwy ganllawiau ac yn cael gwared ar amwysedd er mwyn i ddarparwyr allu bodloni'r rheoliadau a'r safonau perthnasol.

Gall eglurder o fewn y safonau gynyddu effeithlonrwydd wrth weithredu'r gwasanaeth gofal plant. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod plant yn cael gofal a phrofiadau o ansawdd uchel a bod gan rieni ddewis.

Gallai safonau ar gyfer gwarchodwyr plant sy'n cynnig y caiff gwarchodwr plant ofalu am un plentyn arall o dan 5 oed (dewisol, ac mae meini prawf yn berthnasol) ac achlysuron eraill pan fydd plant yn cael eu hystyried yn 5 oed (mae meini prawf yn berthnasol) wella cynaliadwyedd y busnes a helpu rhieni, yn enwedig pan fydd y gwarchodwr plant yn gofalu am frodyr a chwiorydd.

Pan fydd gwarchodwr plant yn gweithio gyda chynorthwyydd, gall hefyd ofalu am blant ar ei ben ei hun (hyd at ddwy awr yn unig) a bydd hyn yn gwella cynaliadwyedd y busnes ac yn rhoi hyblygrwydd i'r gwarchodwr plant gasglu plant o leoliadau/ysgolion eraill ac felly cynnig gofal cofleidiol effeithiol i blant a theuluoedd.

Mae'r risgiau a'r costau o gael a storio hylif parasetamol i'w roi i blant yn yr achosion a amlinellwyd yn y cynigion yn cael eu cydbwyso â'r manteision tebygol i iechyd a llesiant plant. Nid yw'n orfodol darparu hylif parasetamol.

Argymhellir pecynnau o hylif parasetamol heb siwgr gyda 120mg o parasetamol ym mhob dos 5ml. Yn gyffredinol, mae pecynnau un dos yn costio mwy fesul uned na mathau eraill o hylif parasetamol (mae cost bocs sy'n cynnwys 12 x pecyn 5ml o hylif parasetamol (cyfanswm o 60ml) yn costio tua £4.99 i'w brynu o'i gymharu â photel 100ml o hylif

parasetamol sy'n costio tua £3.50). Mae Llywodraeth Cymru yn argymell defnyddio pecynnau oherwydd eu bod yn haws eu storio, mae ganddynt ddyddiadau dod i ben arnynt ac maent yn lleihau croeshalogi rhwng plant. Yn bwysig iawn, mae pecynnau'n darparu'r dos cywir drwy ddefnyddio un pecyn neu fwy nag un, heb fod angen llwy fesur na chwistrell geg.

Fodd bynnag, os nad oes pecynnau ar gael, efallai y bydd yn briodol i'r darparwr gadw potel o hylif parasetamol sy'n cynnwys mwy nag un dos. Yn yr achosion hyn, dylai'r rheolwr neu'r person sy'n gyfrifol am roi meddyginiaeth gynllunio, cofnodi a gweithredu ar groeshalogi yn ofalus. Mae hefyd yn angenrheidiol i unrhyw un sy'n gyfrifol am roi meddyginiaeth fod wedi cael gwybodaeth am bwysigrwydd dilyn unrhyw gyfarwyddiadau i'w defnyddio megis ysgwyd y botel yn dda cyn ei hagor (i sicrhau dos cywir).

Safonau Gwaith Chwarae Mynediad Agored ar gyfer cymwysterau Cymorth Cyntaf a chymwysterau eraill staff – Gallai fod arbedion o dan gostau hyfforddi ar gyfer lleoliadau chwarae mynediad agored os derbynnir y cynigion ar gyfer hyfforddiant Cymorth Cyntaf a chymwysterau staff eraill.

## ADRAN 8. CASGLIAD

Y prif ffactorau sy'n sbarduno'r cynigion hyn yw argymhellion o adolygiadau (a nodir yn y bennod Ymgynghoriad uchod). Mae'r rhai y mae'r cynigion hyn yn effeithio arnynt wedi cymryd rhan lawn yn y gwaith o'u llunio ac rydym wedi gwrando ar ein rhanddeiliaid ac ymgysylltu â nhw drwy gydol y broses i ystyried yr argymhellion a datblygu cynigion ystyrlon a thymor hir ar gyfer newid. Rydym wedi ystyried a blaenoriaethu diogelwch a llesiant y plant y mae'r cynigion hyn yn effeithio arnynt, ochr yn ochr â chefnogi cynaliadwyedd a hyfywedd darparwyr preifat, trydydd sector a chyhoeddus.

Mae unrhyw gynigion ychwanegol sydd y tu allan i argymhellion y gwaith adolygu wedi cael eu hawgrymu gan ein rhanddeiliaid a'u hategu gan dystiolaeth o sesiynau ymgysylltu â'r sector gofal plant a gwaith chwarae. Mae'r rhain yn ymwneud â materion sy'n digwydd ar lawr gwlad yr ydym wedi'u cynnwys yn yr adolygiad a'r ymgynghoriad hwn.

Buom yn ymgysylltu â rhieni a phlant (y bennod Ymgysylltu) i ddysgu mwy am yr hyn a oedd yn bwysig iddynt o ran gofal plant. Mae gwneud hynny wedi dangos sawl maes y gellir mynd i'r afael â nhw i wella dealltwriaeth, ee *Gwahaniaethau rhwng gofal plant wedi'i gofrestru (y Safonau Gofynnol Cenedlaethol) a gofal plant heb ei gofrestru*, a fydd yn rhan o waith datblygu polisi ehangach fel yr adolygiad o'r Gorchymyn Eithriadau. Byddwn yn sicrhau bod ein hymgynghoriad yn cyrraedd rhieni a phlant drwy gydweithio â Plant yng Nghymru fel bod rhieni yn gyfarwydd â safonau gofal plant cofrestredig a byddwn yn parhau i hyrwyddo'r llyfryn Dewis Gofal Plant i rieni.

Fel rhan o'r gwaith hwn ac ymgysylltu parhaus, byddwn yn ystyried effaith unrhyw newidiadau tymor hir posibl i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar ddiogelwch ac ansawdd

y gofal a ddarperir. Mae unrhyw gynigion wedi cael eu datblygu ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) sy'n arolygu lleoliadau cofrestredig ac aelodau o gonsortiwm gofal plant CWLWM a Chwarae Cymru sy'n cynrychioli darparwyr gofal plant a gwaith chwarae.

### 8.2 Beth yw’r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Bwriedir i'r holl gynigion, os cânt eu derbyn, effeithio’n gadarnhaol ar deuluoedd a phlant sy'n derbyn gofal ac ar gynaliadwyedd y sector, a gallant gefnogi'r sector i recriwtio gweithwyr medrus iawn. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod gofal plant hygyrch o ansawdd uchel ar gael i deuluoedd. Gall darpariaeth gofal plant hygyrch o ansawdd uchel ddylanwadu’n gadarnhaol ar ddatblygiad plentyn a'i helpu i ddatblygu i'w lawn botensial. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant o gefndiroedd difreintiedig yn elwa mwy o ofal plant o ansawdd uchel a'i fod yn gallu helpu i unioni anfanteision datblygiadol a'r bwlch cyrhaeddiad.

Mae cyd-gynhyrchu cynigion mewn partneriaeth â'r sector gofal plant a chwarae a rhanddeiliaid/sefydliadau ymbarél yn annog mecanweithiau adborth cadarn i ddatblygu a gweithredu safonau sy'n addas i'r diben.

Bydd cynigion a chanllawiau ategol yn helpu i sicrhau bod y Safonau yn ystyried argymhellion adolygiadau a chynigion ychwanegol y mae'r sector wedi tynnu ein sylw atynt.

**Effeithiau Cadarnhaol a Negyddol**

**<u>Strwythur a diwyg y ddogfen Safonau Gofynnol Cenedlaethol</u>**

*Cadarnhaol*

- ✓ Cefnogi darparwyr gofal plant a gwaith chwarae i fodloni'r gofynion rheoleiddio angenrheidiol ar gyfer darparu gofal plant a gwaith chwarae wedi’i gofrestru
- ✓ Mae'r cynnig yn cynnwys newidiadau strwythurol i sut mae'r Safonau yn edrych ar hyn o bryd gan ganiatáu profiad ar-lein didrafferth lle gall darparwyr a rhieni lywio i rannau perthnasol o'r Safonau. Bydd y cynnig yn cynnwys fersiwn fwy hygyrch o'r Safonau sy'n gydnaws â dyfeisiau symudol a fersiwn y gellir ei argraffu

*Negyddol*

- Gall gymryd amser i wneud newidiadau i strwythur dogfen a dod i arfer â’r newidiadau hynny

**<u>Darpariaeth o Ansawdd Uchel</u> - *Beth rydym yn ei olygu wrth ddarpariaeth o Ansawdd Uchel?***

*Cadarnhaol*

- ✓ Mae'r newidiadau arfaethedig yn cyd-fynd ag egwyddorion Gofal a Dysgu Chwarae Plentyndod Cynnar ac yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal

plant a chwarae o ansawdd uchel, ac maent yn ymateb i ofynion y sector i symleiddio canllawiau

- ✓ Nod cysoni'r Safonau ag egwyddorion Gofal a Dysgu Chwarae Plentyndod Cynnar yw helpu i sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Mae'n annog set gyson o egwyddorion Gofal a Dysgu Chwarae Plentyndod Cynnar wrth ofalu am blant

**Diffiniadau**

*Cadarnhaol*

- ✓ Mae diffiniad diwygiedig o Waith Chwarae Mynediad Agored yn ymateb i argymhelliad 11.3 yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae a fydd yn helpu i wella dealltwriaeth o natur unigryw'r ddarpariaeth hon

**Safonau Gwaith Chwarae Mynediad Agored**

*Cadarnhaol*

- ✓ Maent yn ymateb i argymhelliad 11.1 yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae ynghylch safonau gwaith chwarae mynediad agored cymesur annibynnol
- ✓ Mae newidiadau i safonau penodol ar gyfer Cymorth Cyntaf a Chymwysterau Staff yn galluogi'r darparwr cofrestredig i weithredu'n gymesur

*Negyddol*

- Gall nifer y swyddogion cymorth cyntaf cymwys mewn darpariaethau chwarae Mynediad Agored fod yn is na'r gofynion presennol
- Nid ydym yn gwybod a fydd y cynigion yn lleihau'r gostyngiad yn nifer y lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored yng Nghymru
- Efallai y bydd heriau o hyd wrth recriwtio staff am gyfnodau byr o amser

**Meddyginiaeth**

*Cadarnhaol*

- ✓ Rhoddir eglurder ac arweiniad ynghylch rhoi hylif parasetamol a beth i'w wneud os bydd plentyn yn mynd yn sâl yn y lleoliad cofrestredig
- ✓ Mae'n helpu i amddiffyn iechyd a llesiant y plentyn ac yn gwella dealltwriaeth rhieni o drefniadau pan fydd plentyn yn mynd yn sâl
- ✓ Mae'n helpu'r lleoliad cofrestredig i weinyddu Hylif Parasetamol yn ddiogel yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn y safonau a'r canllawiau

**Defnyddio staff gofal dydd**

*Cadarnhaol*

- ✓ Mae egluro'r defnydd effeithiol o staff (canrannau) ar draws y lleoliad yn hytrach na fesul ystafell yn y safonau yn ddull mwy hyblyg o ymdrin â chymarebau a phwysleisio bod diogelwch, llesiant, datblygiad ac anghenion unigol plant yn cael eu

diwallu bob amser, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, anghenion sy'n dod i'r amlwg a phlant anabl
- ✓ Mae defnyddio mwy o staff mewn ystafelloedd unigol i ddiwallu anghenion penodol plant yn rhoi hyblygrwydd i leoliadau cofrestredig ar sail asesiad ystyriol ac yn sicrhau bod y cymarebau oedolion:plant gofynnol yn parhau i gael eu bodloni

**<u>Cynorthwywyr gwarchod plant</u>**

*Cadarnhaol*

- ✓ Gall cynigion i ddarparu amserlen i gynorthwywyr gwarchod plant ei dilyn wrth ennill cymwysterau yn ystod eu cyfnod mewn cyflogaeth leihau problemau recriwtio
- ✓ Mae eglurhad ynghylch faint o amser y gellir gadael cynorthwyydd gwarchod plant yn llwyr gyfrifol am blant yn rhoi eglurder i'r sector, yn lleihau'r gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant ac yn rhoi sicrwydd i rieni

*Negyddol*

- Gall goruchwylio'r cynorthwywyr gwarchod plant wrth iddynt weithio at gymhwyster fod yn feichus

**<u>Cymarebau gwarchod plant</u>**

- ✓ Mae'r cynigion yn ymateb i argymhelliad 15 yr Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant ac yn ceisio mynd i'r afael â dirywiad y sector gwarchod plant oherwydd cynaliadwyedd busnes
- ✓ Mae'r cynigion yn rhoi hyblygrwydd o ran cymarebau oedolion:plant ar gyfer plant o dan 5 oed ac yn parhau i roi dewis i rieni
- ✓ Maent yn cefnogi cynaliadwyedd y sector gofal plant i barhau i ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd ac ystyried dewisiadau rhieni
- ✓ Gall y cynnig hefyd gefnogi rhaglenni ariannu Llywodraeth Cymru fel Cynnig Gofal Plant Cymru a Dechrau'n Deg.

*Negyddol*

- Bydd cynnydd yn nifer y plant o dan 5 oed y gall gwarchodwyr plant ofalu amdanynt, a gallai hyn effeithio ar y gofal a ddarperir os na fydd gwarchodwyr plant yn defnyddio eu barn broffesiynol am anghenion plant yn effeithiol.

- Gall nifer y gwarchodwyr plant barhau i ostwng er gwaethaf pob ymdrech

- Gall patrymau gwaith, lleoliad gwaith a dewis gwaith rhieni ddylanwadu ar eu penderfyniad wrth ddewis opsiynau gofal plant, ee Gofal dydd, gwarchod plant

### 8.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig yn gwneud y canlynol: cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd y cynigion a amlinellir uchod yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi egwyddor gyffredinol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef gwneud ymyriadau cadarnhaol nawr, er budd pobl Cymru yn y dyfodol.

Bydd y Safonau diweddaraf yn helpu i sicrhau bod plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a phriodol a byddant yn cefnogi ein cynllun Gofal a Dysgu Chwarae Plentyndod Cynnar a'n hegwyddorion sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad plant ac sy'n allweddol i alluogi plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd.

Mae'r cynnig yn cyfrannu at nodau llesiant y Ddeddf, yn benodol:

**Cymru Lewyrchus**

- Cefnogi cynaliadwyedd y sector gofal plant a gwaith chwarae fel rhan allweddol o'r economi sylfaenol
- Galluogi rhieni i ddychwelyd i waith/hyfforddiant neu addysg, cynyddu eu horiau a chefnogi'r rheini sy'n gweithio oriau afreolaidd
- Sicrhau bod lleoliadau gofal plant a reoleiddir ar gael a bod dewis i rieni

**Cymru iachach**

- Annog iechyd a llesiant da i bawb, gan leihau straen a phryder sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd busnes ac i deuluoedd wrth ddod o hyd i ofal plant ychwanegol
- Darparu amgylchedd diogel, gofalgar, cefnogol ac addysgol i blant
- Mae mynediad at ofal plant a gwaith chwarae diogel o ansawdd uchel yn gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol plant
- Mae'n gyfle i blant chwarae
- Mae lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae yn rhoi mynediad i blant at weithwyr gwaith chwarae cymwys sy'n gallu cefnogi eu chwarae

**Cymru sy'n fwy cyfartal**

- Sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth o ansawdd uchel, gan helpu i leihau'r bwlch rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig yn ein cymunedau
- Gall darpariaeth gofal plant o ansawdd uchel ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddatblygiad plentyn a'i helpu i ddatblygu i'w lawn botensial. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant o gefndiroedd difreintiedig yn elwa mwy o ofal plant o ansawdd uchel a'i fod yn gallu helpu i unioni anfanteision datblygiadol a'r bwlch cyrhaeddiad

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

- Mae'r Safonau eisoes yn helpu i sicrhau bod plant yn gallu manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r cyfleoedd sydd ar gael i blant o deuluoedd Cymraeg eu hiaith a'r rhai nad ydynt yn dod o deuluoedd Cymraeg yn eu galluogi i gymdeithasu a chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Safonau yn helpu i ddiwallu a deall anghenion a dewisiadau iaith plant.

**8.4 Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r cynnig ddatblygu, ac ar ôl iddo ddod i ben?**

Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r sector i geisio barn ar effaith newidiadau a wneir i’r Safonau. Bydd y newidiadau arfaethedig yn destun ymgynghoriad a bydd yr ymatebion a dderbynnir yn cael eu hystyried wrth wneud unrhyw newidiadau i'r Safonau.

Byddwn yn parhau i geisio adborth gan y sector ar effeithiolrwydd y Safonau wedi'u diweddaru, ac effaith y canllawiau ychwanegol, gan ystyried unrhyw welliannau y gallai fod eu hangen yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn gofyn am adborth yn rheolaidd gan Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n rheoleiddio ac yn arolygu lleoliadau gofal plant ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae gennym ddyletswydd i ymgysylltu ac ymgynghori o dan rai amgylchiadau, yn ogystal â chael tystiolaeth glir bod cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid yn ganolog i bolisi a chyflawni llwyddiannus. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym wedi ymrwymo i gynnwys pobl yn y gwaith o ddatblygu polisïau.

# A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

## 1. Amcanion y polisi

*Cefndir*

Yr uchelgais a nodir yng Nghynllun Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru yw bod Cymru yn lle gwych i dyfu i fyny, byw a gweithio ynddo, nawr ac yn y dyfodol. Yng Nghymru, rydym eisiau'r gorau i'n plant ac iddynt gael y dechrau gorau mewn bywyd. Dylai plentyndod fod yn gyfnod cyffrous i blant, yn amser i fwynhau, archwilio, darganfod a bod yn chwilfrydig. Mae mynediad at ofal plant digonol o ansawdd uchel yn cyd-fynd â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Drwy ddiwallu anghenion plant mewn darpariaeth gofal plant o ansawdd uchel, gallwn eu cefnogi yn eu bywydau bob dydd ac yn eu datblygiad.

Er mwyn sicrhau bod plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a phriodol, mae lleoliadau gofal plant yn cael eu rheoleiddio, eu cofrestru a'u harolygu. Rhaid i leoliadau gofal plant cofrestredig roi sylw i 'Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010' a'r 'Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir ar gyfer plant hyd at 12 oed'. Mae'r Safonau wedi'u llunio i helpu darparwyr a lleoliadau i fodloni'r rheoliadau sy'n berthnasol i'r gwasanaeth maent yn ei ddarparu. Rhaid i bersonau cofrestredig roi sylw i'r safonau sy'n ymwneud â'r math o ofal a ddarperir.

Mae nodau'r adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol 2024-2025 yn cyfrannu at ein hymrwymiadau i leihau cymhlethdod, gwella hygyrchedd a sicrhau cynaliadwyedd drwy sicrhau bod gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol:

- Safonau i gefnogi darpariaeth chwarae, dysgu a gofal o ansawdd uchel.
- Safonau sy'n rhoi sicrwydd i rieni bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion a llesiant plant.
- Safonau i alluogi darparwyr i fodloni rheoliadau perthnasol.
- Safonau sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ac sy'n nodi amodau ar gyfer gofal plant a chwarae o ansawdd uchel.
- Safonau cymesur.

Mae'r newidiadau arfaethedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn deillio o argymhellion o'r:
Adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir (2019), Adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae (2023) a'r Adolygiad Annibynnol o warchod plant (2023), ynghyd â gwybodaeth a gasglwyd yn ystod digwyddiadau cyn-ymgynghori gyda'r sector. Rydym wedi cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid a chynrychiolwyr yn y sector gofal plant a gwaith chwarae i adolygu'r prif argymhellion yn ogystal â deall sut mae'r Safonau yn gweithio iddyn nhw, gan ystyried yr heriau sy'n wynebu'r sector a gwerthuso'r ffordd orau o fynd i'r afael â nhw. Er mwyn cael trosolwg eang a deall sut beth yw gofal plant da o safbwynt rhieni a phlant, buom yn gweithio gyda Plant yng Nghymru drwy grwpiau ffocws a chwestiynau wedi'u fframio ar gyfer plant a rhieni.

Y brif flaenoriaeth ar gyfer unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Safonau yw rhoi mwy o eglurder ac arweiniad i'r sector gofal plant a gwaith chwarae ar draws nifer o feysydd allweddol gan ganolbwyntio ar ddarparu mwy o hyblygrwydd, cynaliadwyedd a hyfywedd o ran gofynion y Safonau. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i sut y byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Safonau yn effeithio ar ddiogelwch ac ansawdd gofal er mwyn sicrhau bod plant yng Nghymru yn gallu cael gafael ar ofal plant, cyfleoedd chwarae a gweithgareddau o ansawdd uchel sy'n diwallu eu hanghenion nhw ac anghenion eu teuluoedd. Mae'r adolygiad wedi cael ei gynnal mewn ffordd sy’n sicrhau bod buddiannau gorau plant yn cael eu blaenoriaethu a'u bod yn ganolog i'r gwaith o ystyried a gwneud penderfyniadau.

Mae manteision cynnal yr adolygiad a'r ymgynghoriad hwn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ystyried y Safonau yn feirniadol gyda chynulleidfa eang, gan sicrhau eu bod yn cael eu gwella'n barhaus, eu bod yn addas i'r diben o ran cefnogi gofal plant o ansawdd da ac nad ydynt yn achosi rhwystrau i ymarfer.

## Cynigion yr Ymgynghoriad

Mae'r adolygiad o'r Safonau wedi cael ei gynnal ar y cyd ag adolygiadau eraill o Ofal Plant a Chwarae Blynyddoedd Cynnar, sef y Gorchymyn Eithriadau a'r trefniadau Asesu Digonolrwydd Gofal Plant i sicrhau cysondeb ac integreiddio. Mae gweithio fel hyn yn ein galluogi i ystyried y materion yn systematig a deall unrhyw effeithiau.

Mae'r holl newidiadau arfaethedig yn cynnwys yr ymgyrch i gefnogi gofal plant hygyrch o ansawdd uchel sy’n cael ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru a’i gefnogi gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i sicrhau cydymffurfiaeth â’r rheoliadau.

Bydd y cynigion yn destun ymgynghoriad 12 wythnos pan ofynnir am farn rhanddeiliaid, darparwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol ar y newidiadau arfaethedig i'r Safonau. Bydd hyn yn cynnwys sefydliadau sy'n wynebu teuluoedd a'r rheini sy'n cynrychioli buddiannau plant yng Nghymru, yn ogystal â'r Comisiynydd Plant, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd y Gymraeg. Bydd AGC, Gofal Cymdeithasol Cymru, consortiwm gofal plant CWLWM, Chwarae Cymru ac awdurdodau lleol yn cefnogi'r broses ymgynghori, gan sicrhau ei bod yn cael cyhoeddusrwydd ymysg darparwyr gofal plant a gwaith chwarae ar draws y sector.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei sianeli digidol a'i rhwydweithiau presennol ar draws yr holl feysydd polisi perthnasol i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ac i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl. Bydd fersiwn Hawdd ei Ddarllen ar gael.

Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y cynigion canlynol gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid yn ystod tymor yr hydref 2025. Ar ôl dadansoddi'r adborth, byddwn yn cyhoeddi Crynodeb o'r Ymateb erbyn tymor y gwanwyn 2026 ac yn gwneud y newidiadau angenrheidiol fesul cam ar ôl hynny gyda chymorth ein rhanddeiliaid. Bydd geiriad canllawiau terfynol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn seiliedig ar adborth a geir o'r ymgynghoriad.

Mae cynigion yr ymgynghoriad a amlinellir isod wedi’u strwythuro’n bynciau gyda thystiolaeth i egluro'r rheswm dros unrhyw newidiadau. At ddibenion yr Asesiad o'r Effaith

ar Hawliau Plant, rydym ond wedi ystyried yr effeithiau ar gwestiynau a fydd yn rhan o’r ymgynghoriad. Bydd y cwestiynau rydym wedi’u llunio ar gyfer yr ymgynghoriad yn casglu barn am sut gallai'r newidiadau arfaethedig effeithio ar hawliau plant. Mae rhagor o fanylion am bob cynnig a chwestiynau’r ymgynghoriad ar gael yn nogfen ategol yr Ymgynghoriad ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

**Strwythur a gosodiad y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Yn dilyn adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn 2019, roedd argymhelliad yn ymwneud â'i strwythur a'i gyflwyniad, sef Argymhelliad 20: *Edrych ar ffyrdd o symleiddio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol presennol.* O ganlyniad i hyn, rydym wedi ymgysylltu a chydweithio â'n Grŵp Cynghori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ac rydym yn bwriadu ymgynghori ar fersiwn hygyrch ar-lein o'r Safonau. Bydd y Safonau yn cael eu datblygu ar ffurf HTML (ar-lein) a gynhelir ar www.llyw.cymru. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i'r sector lywio drwyddynt a gweld y safonau sy’n benodol iddyn nhw yn unig, a bydd hefyd yn cyflwyno gofynion rheoleiddio perthnasol a gwybodaeth am arferion gorau. Bydd y fformat hwn hefyd yn cefnogi dogfen haws ei dilyn ar gyfer rhieni a gofalwyr gan y byddant yn gallu gweld safonau sy'n ymwneud â mathau penodol o wasanaethau gofal plant, fel gwarchod plant, gofal dydd a chwarae mynediad agored. Mae fformatau HTML yn arwain at gyflwyno'r Safonau mewn ffordd symlach er mwyn rhoi gwell eglurder i ddarparwyr a gwella llythrennedd digidol drwy ganiatáu iddynt ddefnyddio offer hygyrchedd. Bydd yn hawdd gweld y fformat hwn ar ffôn symudol, gliniadur a thabled a bydd yn bodloni safonau hygyrchedd Llywodraeth Cymru. Bydd opsiwn hefyd i argraffu'r ddogfen i gefnogi'r lleoliadau hynny y mae'n well ganddynt gael copi caled.

Rydym yn bwriadu ymgynghori ar enghraifft ddrafft o Safon 12: Bwyd a Diod, sy'n dangos sut y gellid cyflwyno'r safonau ar ffurf HTML ar-lein i wella strwythur, cynllun a phrofiad defnyddwyr. Bydd y cynnig hwn yn cefnogi darparwyr gofal plant a gwaith chwarae i fodloni'r gofynion rheoleiddio angenrheidiol ar gyfer darparu gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig. Bydd hefyd yn caniatáu profiad ar-lein mwy di-dor lle gall darparwyr, rhieni a gofalwyr fynd i rannau perthnasol o'r Safonau sy'n benodol iddyn nhw. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio canfod a yw'n ddefnyddiol dangos y rheoliadau a'r cysylltiadau ag arferion gorau ym mhob safon yn y cynllun newydd, sydd, os cytunir ar hynny, wedi'i fwriadu i gefnogi darparwyr i sicrhau gofal plant o ansawdd uchel. Gall darparu dolenni i ganllawiau pellach arwain at welliant a sicrhau ymhellach bod lleoliadau gofal plant yn ymwybodol o ganllawiau sydd ar gael i'w cefnogi a’u bod yn cael mynediad atynt. Bydd yn canolbwyntio ar y disgwyliad y dylid rhagori ar safonau lle bo hynny'n bosibl drwy ystyried dogfennau arferion gorau.

Bydd hyn yn effeithio’n gadarnhaol ar bob plentyn mewn lleoliadau gofal plant a chwarae ledled Cymru ac yn helpu i sicrhau bod canlyniadau i blant yn cael eu cyflawni i'r safon uchaf bosibl.

**Darpariaeth o Ansawdd Uchel - *Beth rydym yn ei olygu wrth ddarpariaeth o Ansawdd Uchel?***

Cyhoeddwyd y cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ym mis Mawrth 2024, ac mae'n nodi gweledigaeth ar gyfer sut gall lleoliadau gofal plant, gwaith chwarae ac addysg feithrin cyn oedran ysgol statudol (0-5 oed) gefnogi datblygiad anghenion cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol babanod a phlant ifanc. Er bod y cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar, mae ei egwyddorion o ddarpariaeth o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n seiliedig ar hawliau hefyd yn berthnasol ac yn ddylanwadol ar draws yr ystod oedran ehangach, gan gynnwys plant rhwng 5 a 12 oed, yn enwedig mewn lleoliadau gofal plant y tu allan i'r ysgol a Chwarae Mynediad Agored. Fel rhan o'r weledigaeth tymor hwy ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ac ymgorffori dull hawliau plant wrth lunio polisïau, rydym yn diweddaru'r Safonau i gynnwys llais y plentyn ochr yn ochr â datblygu canlyniadau llesiant babanod a phlant ymhellach ym mhob safon i gyd-fynd ag egwyddorion y cynllun.

Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y cynnig i ddiweddaru'r bennod agoriadol yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol - "*Beth rydym yn ei olygu wrth ddarpariaeth o Ansawdd Uchel*" i gryfhau ymhellach ansawdd gwybodaeth a gofynion fel eu bod yn cyd-fynd ag egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Roedd ein rhanddeiliaid yn cefnogi'r cynnig i gysoni'r cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ymhellach yn ystod sesiynau ymgysylltu â'r sector gofal plant a gwaith chwarae.

Os cytunir ar y newidiadau arfaethedig, bydd hyn yn helpu i ddarparu cysylltiad cliriach rhwng egwyddorion y cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a bydd yn tynnu sylw darparwyr at yr hyn a ddisgwylir ganddynt i gyflawni arferion gorau a darpariaeth o ansawdd uchel a fydd yn eu helpu i gynnig gwasanaethau chwarae, dysgu a gofal plant o ansawdd uchel. Bydd hyn yn helpu lleoliadau ac ymarferwyr i gynnig gwasanaethau chwarae, dysgu a gofal plant o ansawdd uchel i blant yn y blynyddoedd cynnar ac i blant hyd at 12 oed. Mae hefyd yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal plant a chwarae o ansawdd uchel ac yn ymateb i ofynion y sector i symleiddio canllawiau. Bydd gan rieni a gofalwyr well dealltwriaeth o beth yw gofal plant o ansawdd uchel, a bydd hyn yn eu galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus wrth ddewis gofal plant. Bydd hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar blant mewn lleoliadau gwarchod plant ledled Cymru drwy sicrhau bod ganddynt ymarferwyr sy'n deall ac yn gallu cael gafael ar adnoddau i'w galluogi i gyflwyno darpariaeth o ansawdd uchel a rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd iddynt.

## Diffiniadau

Roedd argymhelliad 11.3 adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae yn gofyn i Lywodraeth Cymru adolygu a diweddaru'r diffiniad o waith chwarae mynediad agored a lle mae'n digwydd, a gwneud diwygiadau perthnasol i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. O'r gwaith ymgysylltu gydag aelodau o Gyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru a Chwarae Cymru, mae diffiniad newydd yn cael ei gynnig ar gyfer Gwaith Chwarae Mynediad Agored ac rydym yn ymgynghori ar gymeradwyo'r diffiniad hwn ac a yw'n adlewyrchu'r ddarpariaeth yn gywir. Mae hyn yn rhan o'n bwriad i barhau i adolygu'r Safonau ac ymateb i argymhelliad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae.

Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y diffiniad newydd hwn ac a yw'n adlewyrchu'r ddarpariaeth yn fwy cywir.  Ar yr un pryd, ac er mwyn bod yn gyflawn, rydym yn adolygu diffiniadau eraill yn y Safonau ac yn gofyn am farn ynghylch a fyddai darparu enghreifftiau o'r mathau o sectorau yn ddefnyddiol.  Os cytunir ar y newidiadau arfaethedig, bydd hyn yn helpu i wella dealltwriaeth o natur unigryw'r math hwn o ddarpariaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, plant, rhieni a gofalwyr, yn ogystal ag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Bydd hyn yn effeithio’n gadarnhaol ar blant mewn lleoliadau o'r fath ledled Cymru, yn enwedig plant 5 oed a hŷn drwy sicrhau eu bod yn ymwybodol o’r amrywiaeth o leoliadau chwarae mynediad agored sydd ar gael fel yr amlinellir yng nghanllawiau statudol Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae.

**Safonau Chwarae Mynediad Agored**

Roedd yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae wedi adrodd ar ei ganfyddiadau ym mis Tachwedd 2023 a oedd yn cynnwys argymhelliad allweddol 11: Adolygu rheoliadau a gorchmynion gwarchod plant a gofal dydd sy'n ymwneud â gwaith chwarae. Derbyniwyd argymhellion penodol 11.1 a 11.3 a oedd yn effeithio ar waith chwarae mynediad agored yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol:

Mae dwy ran i argymhelliad 11.1.  Mae'r gwaith sy'n ymwneud â threfn arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru yn ffrwd waith ar wahân gan Lywodraeth Cymru ac nid yw'n rhan o'r ymgynghoriad hwn. Bydd adroddiad ar wahân ar hyn fel rhan o gylch adrodd yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae.

Mae'r ail ran yn ymwneud â datblygu safonau gwaith chwarae mynediad agored annibynnol ac mae'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar adolygu'r safonau presennol sy'n llesteirio nifer y darpariaethau chwarae mynediad agored cofrestredig, gyda'r nod o atal dirywiad pellach a chynyddu nifer y darpariaethau cofrestredig, gan lynu wrth Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Gan fod gwaith chwarae mynediad agored yn cael ei ystyried yn ofal dydd ar hyn o bryd ac yn seiliedig ar y gofynion rheoleiddio yn Rheoliadau Gwarchod Plan a Gofal Dydd (Cymru) 2010, nid yw rhai o’r safonau gofynnol cenedlaethol, neu rannau ohonynt, yn berthnasol i leoliadau o'r fath oherwydd natur y ddarpariaeth. Felly, bydd y gwaith hwn yn cynnwys datblygu safonau pwrpasol cymesur ar gyfer lleoliadau chwarae mynediad agored i adlewyrchu natur unigryw'r ddarpariaeth hon.

Mae swyddogion wedi cysoni'r Safonau â rheoliadau perthnasol ac, ar y cyd â phartneriaid, maent wedi dechrau datblygu dull cymesur o ymdrin â'r safonau hyn ar gyfer darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored. Bydd y safonau diwygiedig yn cynnwys fformat newydd sy'n cyd-fynd â'r drafft a rennir o strwythur a chynllun diwygiedig arfaethedig y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i gynnwys canlyniad llesiant a llais y plentyn ym mhob safon, ac maent hefyd yn cynnig y byddant yn cynnwys dolenni i reoliadau a chanllawiau pellach, yn dibynnu ar yr ymatebion a geir yn yr ymgynghoriad. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cynigir bod tîm y we yn datblygu'r safonau hyn fel fersiwn HTML, gan ddefnyddio'r fformat a awgrymir o dan y cynnig Strwythur.

Ar ôl adolygu’r Safonau, rydym o'r farn y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn gofyn am newidiadau i'r geiriad yn unig ac na fydd angen ymgynghori'n llawn arnynt. Fodd bynnag, ar gyfer **Safon 10**: **Gofal iechyd** yn benodol, safonau darpariaeth chwarae mynediad agored **10:28, 10:29** a **10:30** a **Safon 13 (GD): Person addas (Gofal Dydd) Cymwysterau Staff Eraill - 13.9 (GD) ar gyfer Chwarae Mynediad Agored** mae angen i ni edrych ymhellach ar effeithiau unrhyw newidiadau ac ystyried unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn sgil newidiadau.

**Hyfforddiant Cymorth Cyntaf – Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored: Safon 10: Gofal Iechyd – Safonau 10:28 a 10:29**

Nid yw gofynion penodol y Safonau o ran cymwysterau a chymorth cyntaf yn cyd-fynd â natur darpariaeth lle mae angen staff dros dro am gyfnodau gweithredu cyfyngedig, gan arwain at heriau wrth gyflogi unigolion ar gyfer y rolau dros dro hyn.

Bydd cynnig dull gweithredu mwy cymesur ar gyfer y rhan hon o'r sector yn arwain at effeithiau cadarnhaol o ran cost, recriwtio a chyflogadwyedd. Felly, mae'r ymgynghoriad yn gofyn am farn ar a ellid diwygio Safon 10 - Hyfforddiant Cymorth Cyntaf a'i wneud yn fwy cymesur ar gyfer y sector chwarae mynediad agored. Mae hyn yn ymwneud â'r gofyniad i sicrhau bod o leiaf un aelod o staff yn gymwys i roi cymorth cyntaf bob amser a bod cynlluniau wrth gefn ar waith i gael mwy o staff cymwys, gan ddilyn y dybiaeth bod cael mwy o staff hyfforddedig yn fuddiol. Mae hyn yn amodol ar gynnal asesiad risg o’r mathau o weithgareddau a gyflawnir. Bydd angen asesu ac ystyried y math o wasanaeth a gweithgareddau sy'n cael eu darparu, lleoliad a maint y ddarpariaeth, ac anghenion penodol y plant i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau, yn hytrach na chadw at ofyniad penodol.

Mae'r addasiad hwn yn lleihau nifer y staff cymorth cyntaf hyfforddedig y mae angen iddynt fod yn bresennol bob amser. Gallai hyn fod yn anfantais i'r plant yn y lleoliadau dan sylw. Fodd bynnag, disgwylir i ddull gweithredu sy'n seiliedig ar risg ac sy’n nodi anghenion yn fwy manwl gydbwyso'r ystyriaethau hyn.

**Safon 13 (GD): Person addas (Gofal Dydd) Cymwysterau Staff Eraill - 13.9 (GD) Ar gyfer Chwarae Mynediad Agored**

Mae Chwarae Cymru wedi dweud ei bod yn anodd dod o hyd i staff i fodloni gofynion “cymwysterau staff” y Safonau oherwydd ei natur dros dro. Mae heriau o ran y gofynion presennol ar gyfer nifer y staff cymwys sydd â chymwysterau penodol i weithio yn y ddarpariaeth dros dro hon gan nad yw'r gofynion o ran cymwysterau yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cyd-fynd â natur y ddarpariaeth lle mae angen staff dros dro am gyfnodau gweithredu cyfyngedig. Felly, mae'r ymgynghoriad yn bwriadu ymgynghori ar wneud diwygiadau i Safon 13.9 (GD) ar gyfer chwarae mynediad agored er mwyn i'r person sy’n gyfrifol feddu ar gymhwyster gwaith chwarae lefel 3 o leiaf ac i 50% o'r holl staff eraill feddu ar gymhwyster gwaith chwarae lefel 2. Rhaid i'r Person Cofrestredig sicrhau bod y staff anghymwys neu'r gwirfoddolwr/gwirfoddolwyr yn gymwys ac yn gyfrifol, yn cael eu goruchwylio'n llawn, a bod yr archwiliadau gofynnol wedi'u cwblhau. Rhaid i unrhyw gymhwyster gael ei gydnabod ar Restr o Gymwysterau Gofynnol Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (neu unrhyw restrau sy'n disodli hyn) sy'n briodol i’r swydd.

Diben y newidiadau arfaethedig yw darparu set gymesur o safonau sy'n cydnabod natur dros dro Chwarae Mynediad Agored a byddant yn cefnogi cynaliadwyedd y sector.  Bydd hyn yn cefnogi'r broses o weithio at y nod o gynyddu nifer y gwasanaethau cofrestredig a rhoi mynediad i fwy o blant at fannau chwarae diogel sy'n cael eu rhedeg gan staff cymwys. Mae'r newidiadau i safonau penodol ar gyfer Cymorth Cyntaf a Chymwysterau Staff yn galluogi Darparwyr Cofrestredig i weithredu'n gymesur a byddant yn rhoi sicrwydd i rieni y bydd staff cymwys a chyfrifol yn rhedeg y gwasanaeth, ac y bydd asesiadau risg yn llywio eu hymarfer a chymwysterau cymorth cyntaf.

Disgwylir i'r dull cymesur hwn o ymdrin â safonau chwarae Mynediad Agored effeithio'n gadarnhaol ar blant mewn lleoliadau chwarae mynediad agored ledled Cymru. Er y gallai fod gostyngiad posibl yn nifer y staff cymwys, rhagwelir y bydd yr anfantais hon yn cael ei gwrthbwyso gan y cyfleoedd cynyddol i blant archwilio a chwarae mewn lleoliadau chwarae mynediad agored cofrestredig. Bydd y person cyfrifol dynodedig yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei staffio gan weithwyr chwarae sy'n glynu wrth safonau a chanllawiau sefydledig, gan gefnogi eu cymhwysedd a'u hatebolrwydd.

## Safon 11: Meddyginiaeth - Hylif Parasetamol

Mae rhai o'r Safonau presennol eisoes yn amddiffyn a chryfhau hawliau plant mewn lleoliadau gofal plant o ran pryd y gall staff roi meddyginiaeth ar bresgripsiwn i blant. Fodd bynnag, yn dilyn pryderon a amlygwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru o ran yr angen am fwy o eglurder ynghylch rhoi meddyginiaeth nad yw ar bresgripsiwn (Hylif Parasetamol) i gefnogi iechyd a llesiant plant mewn lleoliadau gwarchod plant a gofal dydd cofrestredig, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gylchlythyr 011/24 ym mis Rhagfyr 2024. Gwnaed hyn fel mater o frys i ddiogelu iechyd a llesiant plant sy'n mynd yn sâl mewn lleoliadau cofrestredig gwarchod plant a gofal dydd.

Nid yw Safon 11 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar Feddyginiaeth yn mynd i'r afael yn llawn â threfniadau meddyginiaeth heb fod ar bresgripsiwn ac nid yw'n darparu canllawiau ychwanegol ar drefniadau darparu Hylif Parasetamol yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn y cylchlythyr. Yn dilyn cyngor gan swyddogion iechyd, mae'r canllawiau a gyhoeddwyd yn y cylchlythyr bellach yn galluogi darparwyr i gadw pecynnau un dos o Hylif Parasetamol i'w rhoi i blant yn y lleoliad cofrestredig. Yr argymhelliad yw defnyddio pecynnau gan ei fod yn osgoi'r risg o groeshalogi a allai ddigwydd gyda photel. Fodd bynnag, efallai y bydd effaith ar gost prynu'r rhain i'r lleoliad gofal plant gan fod y rhain yn ddrutach na photel. Felly, i liniaru'r effaith hon, efallai y bydd lleoliadau'n dewis stocio potel o hylif parasetamol sy'n cynnwys mwy nag un dos.  Yn yr achosion hynny, dylai'r rheolwr neu'r person sy'n gyfrifol am roi meddyginiaeth gynllunio, cofnodi a gweithredu ar groeshalogi yn ofalus.

Rydym yn bwriadu ymgynghori'n ffurfiol ar newidiadau i Safon 11 a fydd yn dangos y gwahaniaeth rhwng meddyginiaeth ar bresgripsiwn a meddyginiaeth heb fod ar bresgripsiwn a bydd yn nodi bod fferyllfeydd bellach yn gallu rhoi rhai meddyginiaethau ar bresgripsiwn. Ar ben hynny, bydd datblygu Atodiad newydd i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn rhoi rhagor o arweiniad ar roi hylif parasetamol i blant sâl mewn lleoliad. Bydd newidiadau i eiriad Safon 11, os cytunir arnynt, yn cefnogi darparwyr cofrestredig i hyrwyddo ac amddiffyn anghenion iechyd y plant yn eu gofal, a byddant yn helpu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau a'r rheoliadau drwy roi canllawiau cliriach i leoliadau er

mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i blant. Ar ben hynny, bydd yn rhoi sicrwydd i rieni bod eu plant yn gallu cael ymyriad meddygol ar ffurf Hylif Parasetamol i atal unrhyw anghenion iechyd rhag gwaethygu mewn argyfwng, ar yr amod eu bod yn cytuno i hynny.

Bydd hyn yn effeithio’n gadarnhaol ar blant mewn lleoliadau gofal plant a chwarae ledled Cymru ac yn sicrhau bod eu hanghenion iechyd a llesiant yn cael eu blaenoriaethu drwy alluogi staff ym mhob lleoliad i roi triniaeth brydlon i leddfu poen neu dymheredd uchel os bydd plant yn mynd yn sâl. Bydd hyn yn helpu i atal unrhyw ddigwyddiadau rhag gwaethygu i sefyllfa o argyfwng. Bydd y newid hwn yn sefydlu fframwaith clir a fydd yn galluogi staff i gydweithio'n effeithiol â rhieni a gofalwyr i gefnogi llesiant a gofal plant.

**Defnyddio Staff - Person Addas Safon 13 (GD)**

Mae gan Lywodraeth Cymru dystiolaeth gan y sector a chonsortiwm CWLWM bod angen egluro sut mae canrannau'r staff cymwys, y staff heb gymhwyso a'r gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio'n effeithiol ar draws y lleoliad ac a yw'r canrannau sylfaenol a amlinellir yn y safonau fesul ystafell neu ar draws y lleoliad cyfan. Ar ben hynny, cafwyd ceisiadau am eglurhad ynghylch pryd mae lleoliadau wedi cyflogi staff a gwirfoddolwyr ychwanegol i helpu i ddiwallu anghenion unigol plant. Mewn rhai achosion, mae’n ymddangos bod hyn yn gwanhau canrannau'r cymarebau staff cymwys, anghymwys a gwirfoddolwyr yn gyffredinol. Ar hyn o bryd, mae risg na fydd lleoliadau yn ystyried gwirfoddolwyr ychwanegol i gefnogi'r plant a'u dyheadau i wneud hynny oherwydd y pryder hwn. Cyflwynir cynigion i liniaru hyn drwy gryfhau'r canllawiau yn y Safonau i nodi a oes staff wedi’u cyflogi i gefnogi plant penodol ag anghenion ychwanegol. Efallai na fydd angen eu cynnwys yn y cymarebau, ar yr amod bod y cymarebau staffio gofynnol yn cael eu bodloni ac nad yw cyflogi staff ychwanegol yn cael unrhyw effaith negyddol ar lesiant plant.

Mae'r cynnig yn ceisio barn ar gyflwyno geiriad ychwanegol i Safon 13 (GD): Person Addas, i roi eglurhad ynghylch defnyddio staff ar draws lleoliadau. Bydd hyn hefyd yn darparu gwybodaeth am achosion lle gallai lleoliadau gynnwys gwirfoddolwyr neu staff ychwanegol, sy'n mynd y tu hwnt i’r cymarebau gofynnol o ran oedolion:plant i gefnogi'r gwaith o ddiwallu anghenion unigol. Ni ddylid ystyried hyn yn negyddol os yw'n gwella’r canlyniad a'r effaith ar anghenion plant.

Os cytunir ar y newidiadau arfaethedig, rhoddir eglurder bod canrannau'r staff ar draws y lleoliad ac nid fesul ystafell a bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr ddefnyddio staff yn effeithiol ar sail anghenion y plant a chymwyseddau’r staff yn eu lleoliad. Bydd yn darparu dull mwy hyblyg o ymdrin â chymarebau ac yn pwysleisio bod anghenion diogelwch, lles, datblygiad a chymorth unigol plant bob amser yn cael eu diwallu, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol, a phlant anabl. Bydd hyn yn ei dro yn rhoi sicrwydd i rieni y gall lleoliad plant addasu ei lefelau staffio i ddiwallu anghenion y plant a chefnogi eu dymuniadau, eu hawliau ac unrhyw addasiadau.

Bydd hyn yn effeithio’n gadarnhaol ar blant mewn lleoliadau gofal plant ledled Cymru drwy sicrhau bod staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol i allu gofalu amdanynt a diwallu eu hanghenion yn effeithiol, gyda staff neu wirfoddolwyr ychwanegol yn cael eu cyflogi i wella eu profiad cyffredinol a chefnogi eu datblygiad, a pharhau i fodloni'r cymarebau gofynnol o

ran oedolion:plant. Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystyried sut mae staff cymwys a heb gymhwyso yn cael eu defnyddio'n effeithiol yn ystod arolygiadau.

**Canllawiau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cynorthwywyr Gwarchod Plant - Safon 13: Person Addas (GP) ac Atodiad A**

Yn dilyn y gofyniad blaenorol yn y fersiwn diweddaraf o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn 2023 i gynorthwywyr gwarchod plant gwblhau cymhwyster cydnabyddedig erbyn mis Tachwedd 2024, codwyd pryderon gan Coram PACEY Cymru (PACEY Cymru gynt) ar ran eu haelodau i dynnu sylw at y ffaith y gallai'r gofyniad hwn fod wedi arwain at rai cynorthwywyr yn gadael eu swyddi a gallai fod wedi achosi heriau mewn lleoliadau lle'r oedd cynorthwywyr newydd gael eu penodi, gan arwain at heriau recriwtio parhaus i gynorthwywyr gwarchod plant cymwys. Felly, byddwn yn ymgynghori ar gynnig a fydd yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd (o fewn amserlen benodol) a allai helpu i gynnal parhad yn y sector gwarchod plant. Drwy'r cynnig, bydd cynorthwywyr gwarchod plant yn gallu dechrau yn eu swydd heb gymhwyster ffurfiol a gweithio at ennill y cymhwyster gofynnol o fewn cyfnod o 6 mis. Fodd bynnag, ystyriwyd cafeat i sicrhau diogelwch plant, gyda diwygiadau i Safon 13.4(GP) na ellir gadael cynorthwywyr gwarchod yn gyfrifol am blant ar eu pen eu hunain hyd nes y ceir y cymhwyster. Bydd hyn yn helpu i liniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynorthwyydd yn gweithio heb y cymwysterau angenrheidiol am gyfnod byr ar ôl cael ei gyflogi.

Yn y diweddariad blaenorol, darparwyd canllawiau ychwanegol i gefnogi gwarchodwyr plant sydd â chynorthwywyr. Fodd bynnag, mae Arolygiaeth Gofal Cymru a Coram Pacey Cymru yn nodi bod gwarchodwyr plant wedi mynegi'r angen am ganllawiau cliriach ynghylch amodau lle gallai cynorthwywyr fod yn llwyr gyfrifol am blant oherwydd bod y diffyg terfyn amser yn y Safonau yn arwain at ddryswch a chamddefnydd posibl ar hyn o bryd. Felly, rydym yn bwriadu ymgynghori ar y cyfnod hiraf y gellir gadael cynorthwyydd gwarchod plant cymwys yn llwyr gyfrifol am blant.

Os cytunir ar y newidiadau arfaethedig, bydd hyn yn helpu i roi arweiniad cliriach a chefnogi gwarchodwyr plant i reoli eu hymarfer drwy eu galluogi i benodi cynorthwyydd yn haws i gefnogi a gwella'r ddarpariaeth i'r plant. Bydd yn cael gwared ar unrhyw amwysedd ynghylch rôl y cynorthwyydd gwarchod plant o'i gymharu â'r gwarchodwr plant cofrestredig, yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau a'r rheoliadau. Bydd diwygio Safon 13.4 (GP) i ganiatáu i gynorthwywyr gwarchod plant gael eu cyflogi heb gymhwyster ffurfiol ar yr amod eu bod yn gweithio at gyflawni'r cymhwyster gofynnol yn lleddfu'r pwysau ar recriwtio. Bydd cynorthwywyr gwarchod plant yn gallu cael eu gadael yn llwyr gyfrifol am blant am uchafswm o ddwyawr, ar yr amod bod yr holl ofynion eraill yn y canllawiau'n cael eu bodloni, a bydd hyn yn helpu i roi arweiniad cliriach a chefnogi gwarchodwyr plant i reoli eu hymarfer a rhoi sicrwydd i rieni. Bydd y newidiadau hyn yn cefnogi cynaliadwyedd y model busnes gwarchod plant gyda mantais ddilynol o amrywiaeth o atebion gofal plant i rieni a gofalwyr. Bydd hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar blant mewn lleoliadau gwarchod plant ledled Cymru drwy roi mwy o eglurder i'w rhieni a'u gofalwyr am rôl cynorthwywyr gwarchod plant o ran gofalu amdanynt a bydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus am ofal eu plentyn.

**Cymarebau (Gwarchod Plant) - Safon 15 (GP):**

Cynhaliwyd Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant (2023) i ddeall yn well y rhesymau dros y gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant.  Roedd Argymhelliad 15 yn gofyn i Arolygiaeth Gofal Cymru ystyried cyflwyno mwy o hyblygrwydd o ran sut gall gwarchodwyr plant ddefnyddio cymarebau staffio'r Safonau yn ystod cyfnodau byr o'r dydd er mwyn eu galluogi i ddiwallu'r galw am ofal plant y tu allan i oriau ysgol cyn ac ar ôl ysgol yn ogystal â gofal cofleidiol sy'n gorgyffwrdd yn ystod amser cinio.

Yn dilyn y gostyngiad cyflym mewn gwarchodwyr plant dros y 5 mlynedd diwethaf a'r awydd i barhau i gynnig dewis o ofal plant i rieni, mae'r ymgynghoriad yn ceisio cytundeb i ddiwygio'r cymarebau gwarchod plant presennol. Yn dilyn dadansoddiad trylwyr o'r cynigion gyda Grŵp Cynghori'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, rydym yn bwriadu ymgynghori ar ddiwygio'r cymarebau ar gyfer gwarchodwyr plant er mwyn cynnig hyblygrwydd i blant dan 5 oed. Bydd hyn yn golygu cynnydd o un plentyn dan 5 oed (ond nid o dan 18 mis oed) ar yr hyn y cytunir arno ar hyn o bryd. Ar ben hynny, mae newidiadau arfaethedig ar gyfer plant sydd i fod i ddechrau ysgol / addysg statudol amser llawn ym mis Medi, a fydd yn cael eu hystyried yn blant dros 5 oed yn ystod gwyliau'r haf cyn hynny at ddibenion y cymarebau sy'n berthnasol i warchodwyr plant. Hefyd, ar gyfer plant 3-5 oed mewn darpariaeth addysgol neu gyfuniad o ddarpariaeth addysgol a gofal plant cofleidiol yn ystod oriau ysgol mewn lleoliad arall am bum awr neu fwy y dydd, gellir ystyried eu bod dros 5 oed at ddibenion y cymarebau sy'n berthnasol i warchodwyr plant.

Os cytunir ar y newidiadau arfaethedig, bydd hyn yn helpu i gefnogi cynaliadwyedd y sector gwarchod plant drwy gynnig hyblygrwydd o ran cymarebau oedolion i blant ar gyfer plant dan 5 oed. Bydd hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar blant mewn lleoliadau gwarchod plant ledled Cymru drwy sicrhau parhad gofal i deuluoedd a phlant, a chefnogi grwpiau o frodyr a chwiorydd i gael gofal gyda'i gilydd o ystyried y bwlch oedran cyfartalog rhwng brodyr a chwiorydd. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar eu llesiant.   Bydd plant yn cael y budd deuol o gael gofal gan weithiwr proffesiynol hysbys a chael gofal gyda'u brodyr a'u chwiorydd. Bydd rhieni'n gallu dewis gwarchodwr plant a fyddai, yn eu barn nhw, yn diwallu anghenion eu plant orau ac yn gofalu am eu plant gyda'i gilydd. Gall hyn fod yn arbennig o arwyddocaol i rieni plant anabl, y rheini sydd â dewisiadau diwylliannol, crefyddol neu iaith a rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol.

## Crynodeb

Mae'r adolygiad ymgynghorol o Safonau Gofynnol Cenedlaethol 2024-2025 wedi cael ei gynnal mewn ffordd sy'n sicrhau bod buddiannau gorau plant yn cael eu blaenoriaethu a'u bod yn ganolog i'r gwaith o ystyried a gwneud penderfyniadau. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio cydnabod a gwerthfawrogi barn y rhai sy'n cymryd rhan yn y broses ymgynghori. Mae'r rhai y mae'r cynigion hyn yn effeithio arnynt wedi cymryd rhan lawn yn y gwaith o'u llunio ac rydym wedi gwrando ar ein rhanddeiliaid ac ymgysylltu â nhw drwy gydol y broses i ystyried yr argymhellion a datblygu cynigion ystyrlon a thymor hir ar gyfer newid. Rydym wedi ystyried a blaenoriaethu diogelwch a llesiant y plant y mae'r cynigion hyn yn effeithio arnynt, ochr yn ochr â chefnogi cynaliadwyedd a hyfywedd darparwyr preifat, trydydd sector a chyhoeddus.

Bwriedir i'r holl gynigion, os cânt eu derbyn, effeithio'n gadarnhaol ar blant sy'n derbyn gofal ac ar gynaliadwyedd y sector, a gallant gefnogi'r sector i recriwtio gweithwyr medrus

iawn.  Mae hyn yn helpu i sicrhau bod gofal plant hygyrch o ansawdd uchel ar gael i deuluoedd. Gall darpariaeth gofal plant hygyrch o ansawdd uchel ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddatblygiad plentyn a'i helpu i ddatblygu i'w lawn botensial. Mae cyd-gynhyrchu cynigion mewn partneriaeth â'r sector gofal plant a rhanddeiliaid/sefydliadau ymbarél yn annog mecanweithiau adborth cadarn i ddatblygu a gweithredu safonau sy'n addas i'r diben.

Ein bwriad yw ymgynghori ar unrhyw newidiadau arfaethedig gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid ym mis Medi 2025. **Rydym yn** bwriadu ymgysylltu â sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau plant a theuluoedd fel rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol. Cynhelir ymarfer ymgynghori ffurfiol 12 wythnos ar unrhyw ddiwygiadau i'r canllawiau statudol. Rhoddwyd ystyriaeth lawn hefyd i'r adolygiad o'r Safonau mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n cael ei wneud i adolygu'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a'r Gorchymyn Eithriadau, gan eu bod yn dri darn o waith cydgysylltiedig sy'n cael eu datblygu gan yr is-adran Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae.

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, bydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi a bydd y Safonau a'r canllawiau cysylltiedig yn cael eu diweddaru gyda mewnbwn gan ein partneriaid (awdurdodau lleol, a sefydliadau ymbarél gofal plant a chwarae yng Nghymru). Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y Safonau yn cefnogi'r sector gofal plant a gwaith chwarae drwy ddarparu canllawiau clir i fodloni gofynion perthnasol rheoliadau.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc

Mae argaeledd gofal plant, chwarae a gweithgareddau o ansawdd uchel yn cynnig manteision cymdeithasol, economaidd ac addysgol hanfodol i blant a theuluoedd. Roedd ymchwil a gomisiynwyd gan yr Adran Addysg yn 2022 wedi nodi mai'r prif reswm dros rieni'n defnyddio gofal plant oedd i'w galluogi i weithio, ond bod datblygu a chymdeithasu hefyd yn fantais allweddol i'r plant. Roedd rhieni o'r farn bod argaeledd gofal hyblyg o ansawdd uchel yn hanfodol i ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd. Mae Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant Awdurdodau Lleol ac ymdrechion i ymgysylltu â'r sector yn dweud wrthym fod pandemig y Coronafeirws a'r argyfwng costau byw wedi effeithio ar gynaliadwyedd y sector gofal plant, ei weithlu, a bywydau gwaith rhieni a phlant.

Mae tystiolaeth yn dangos bod mynediad at ofal plant a chwarae o ansawdd uchel yn fuddiol i bob plentyn yn ei flynyddoedd cynnar[2]. Gall fod yn rhan bwysig o fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad, datblygu sgiliau cymdeithasol plant a'u cefnogi i baratoi ar gyfer yr ysgol. Mae ymarferwyr medrus, cefnogol a chymwys yn elfen allweddol o ofal plant a gwaith chwarae o ansawdd uchel ac maent yn gwneud gwahaniaeth amlwg i ddysgu a

[2] https://www.eif.org.uk/blog/early-years-education-what-does-high-quality-provision-look-like

datblygiad plant, yn enwedig i blant o deuluoedd incwm isel a theuluoedd sydd mewn perygl[3].

Rydym eisiau i blant o bob cefndir ledled Cymru gael y dechrau gorau mewn bywyd ac mae'r rheini sy'n gofalu am ein plant yn hollbwysig i'n helpu ni i gyflawni'r weledigaeth hon a nodir yn ein cynllun 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu chwarae a blynyddoedd cynnar[4] - i gefnogi a datblygu gweithlu medrus iawn sy'n cael ei ystyried yn broffesiwn ac yn yrfa o ddewis.

Mae'r newidiadau arfaethedig i'r Safonau, os cytunir arnynt ac os cânt eu cefnogi gan yr ymgynghoriad, yn ceisio effeithio'n gadarnhaol ar gynaliadwyedd y sector a byddant yn cefnogi'r sector i recriwtio gweithwyr medrus iawn. Bydd hyn yn ei dro yn sicrhau bod gofal plant hygyrch o ansawdd uchel ar gael ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddatblygiad plant, gan eu helpu i ddatblygu i'w llawn botensial.

**Ymgysylltiad Ehangach y Polisi â Phlant**

Roedd canfyddiadau'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae yn cynnwys ymgysylltu â phlant ac roedd eu lleisiau a'u safbwyntiau yn rhan o'r argymhellion. Yn ystod gwanwyn 2024, comisiynwyd Plant yng Nghymru i gynnal ymchwil i ymgysylltu â phlant fel sail i'r adolygiad o 'Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 a'r 'Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed'. Prif ffocws yr adolygiadau hyn oedd sicrhau bod plant yng Nghymru yn gallu cael gafael ar ofal plant a gweithgareddau chwarae o ansawdd uchel sy'n diwallu eu hanghenion nhw ac anghenion eu teuluoedd. Buom yn gweithio gyda Plant yng Nghymru drwy grwpiau ffocws a chwestiynau wedi'u fframio i gasglu barn plant am eu profiadau o ddarpariaethau gofal plant a chwarae, beth oeddent yn ei hoffi am eu profiad ac ystyried unrhyw rwystrau. O'r lleoliadau gofal plant ledled Cymru a gafodd eu gwahodd i gymryd rhan yn yr

---

[4] Early-Years-Impact-Brief.pdf (suttontrust.com)

[5] Gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar - cynllun gweithlu | LLYW.CYMRU

ymgynghoriad hwn, fe wnaethom dargedu'n benodol y rheini a oedd wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant Hawliau'r Blynyddoedd Cynnar y mae Plant yng Nghymru yn ei hwyluso. Mae'r hyfforddiant hwn wedi'i dargedu'n benodol at ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Hawliau a Chyfranogiad Plant ac mae'n helpu ymarferwyr i ddeall y fframweithiau cyfreithiol a’r polisi sy'n cefnogi hawliau plant a sut i sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed yn eu hymarfer. Mae'n cefnogi ymarferwyr i gydnabod babanod, plant a phobl ifanc fel asiantau gweithredol yn eu bywydau eu hunain, sydd â hawl i gael llais, parch, diogelwch a mwy o ymreolaeth wrth arfer hawliau ar wahanol gamau wrth ddatblygu ac aeddfedu. Roedd hyn yn golygu bod gan yr ymarferwyr a oedd yn rhan o'r grwpiau ffocws ddealltwriaeth dda o Hawliau Plant a sut i gynnal gweithgareddau ymgynghori. Cafwyd safbwyntiau gan grŵp amrywiol o rieni a phlant (gan gynnwys plant anabl a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol) mewn perthynas â gofal plant a sut maent yn teimlo am fynd i leoliadau o’r fath.

Mae'r gwaith ymgysylltu wedi darparu ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth i ystyried beth sy'n gweithio'n dda a mwy o feysydd y mae angen i ni eu hystyried mewn adolygiadau yn y dyfodol a ffrydiau gwaith eraill. Nid oedd yr holl adborth a gawsom yn ymwneud â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn uniongyrchol. Roedd y meysydd eraill hyn yn cyfeirio'n fwy cyffredinol at faterion recriwtio a chadw staff, ac argaeledd hyfforddiant sydd y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad o'r Safonau.

Ni chafodd babanod a phlant dan 2 oed eu cynnwys yn yr ymarfer ymgysylltu, felly cynhaliwyd ymarfer ymgynghori gyda rhieni ar eu rhan. Casglwyd yr wybodaeth gan rieni gan ddefnyddio cyfuniad o grwpiau ffocws a chyfweliadau un-i-un.

- Ar gyfer plant 0-2 oed, roedd ffocws cryf ar 'fannau diogel' a 'chadw plant yn ddiogel'.
- Roedd plant rhwng 2 a 5 oed yn mynegi pa mor bwysig yw eu gofalwyr iddynt ac yn myfyrio ar sut maent yn ganolog i'w hymdeimlad o ddiogelwch a hapusrwydd. Roedd ymatebion y plant yn dangos bod y rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod mynychu gofal plant yn brofiad hapus a hwyliog ac yn lle i chwarae a gwneud cysylltiadau.
- Roedd plant hŷn rhwng 4 a 10 oed yn ymwybodol o sut mae gofal plant yn cael ei ddefnyddio fel cyfle iddynt chwarae, cymdeithasu a dysgu sgiliau ond hefyd i ganiatáu i'w rhieni / gwarcheidwaid weithio.

Roedd consensws hefyd gan rieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol nad oedd ganddynt ddigon o ddewis gofal plant oherwydd mai ychydig iawn o leoliadau oedd yn gallu diwallu anghenion unigol plant.

Mae'r adolygiad hwn yn tynnu sylw at anghenion a phrofiadau amrywiol rhieni yng Nghymru o ran gofal plant. Wrth asesu effaith unrhyw newidiadau i'r Safonau yn yr ymgynghoriad, rydym wedi ystyried y pynciau eang sydd wedi dod i'r amlwg o ganfyddiadau'r ymarfer. Roedd rhai o'r rhain yn cynnwys pa mor bwysig yw diogelwch, fforddiadwyedd a hyfforddiant staff mewn lleoliadau gofal plant. Roedd rhieni’n pwysleisio’r angen i ofal plant ddarparu amgylchedd diogel y gellir ymddiried ynddo lle gall plant ddysgu, cymdeithasu a datblygu. Roedd rhai o'r rhwystrau rhag cael gafael ar ofal plant yn cynnwys costau uchel, argaeledd cyfyngedig, a chymorth annigonol i blant ag anghenion

dysgu ychwanegol. Dywedodd teuluoedd plant ag anghenion dysgu ychwanegol fod diffyg opsiynau gofal plant cynhwysol â digon o staff, gan dynnu sylw at yr angen am well hyfforddiant ac adnoddau. Roedd argymhellion gan rieni yn cynnwys gwella mynediad at wybodaeth, hyrwyddo cymhwysedd diwylliannol mewn gofal plant, cynnig opsiynau mwy fforddiadwy a sicrhau bod lleoliadau'n gallu diwallu anghenion penodol pob plentyn.

Mae rhywfaint o'r adborth a gafwyd o'r gwaith ymgysylltu hwn yn gysylltiedig â chynigion penodol ar gyfer adolygu Safonau Gofynnol Cenedlaethol 2025, ac mae wedi helpu i lywio'r cynigion hynny. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod hawliau plant, a'u hawl i chwarae, yn cael ei gynnal, a bod eu barn a'u teimladau'n cael eu hystyried wrth ddatblygu cynigion polisi ar gyfer yr adolygiad hwn. Er enghraifft:

- **Cymorth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol:** Mae hyn yn cysylltu â'r cynnig i ddiweddaru Safon 13 (GD) Person Addas i gynnwys geiriad ychwanegol i egluro sut mae staff yn cael eu defnyddio ar draws lleoliadau. Bydd geiriad y cynnig yn cynnwys achosion lle gall lleoliadau gynnwys gwirfoddolwyr neu staff ychwanegol, sy'n uwch na'r cymarebau gofynnol o ran oedolion:plant, i gefnogi'r gwaith o ddiwallu anghenion unigol. Ni ddylid ystyried hyn yn negyddol os yw’n gwella’r canlyniad a'r effaith ar anghenion plant. Os cytunir ar y newidiadau arfaethedig, bydd hyn yn egluro bod canrannau'r staff ar draws y lleoliad ac nid fesul ystafell a bydd yn rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr ddefnyddio staff yn effeithiol ar sail anghenion y plant a chymwyseddau’r staff yn eu lleoliad. Bydd y newidiadau arfaethedig hefyd yn rhoi sicrwydd i rieni bod lleoliad eu plant yn gallu addasu eu lefelau staffio i ddiwallu anghenion y plant.

- **Gwarchodwyr plant sy'n gadael neu'n dadgofrestru:** Mae hyn yn cysylltu â'r cynnig i ddiweddaru Safon 15: Cymarebau (Gwarchod Plant) i geisio cytuno ar gynnig i newid y cymarebau gwarchod plant presennol ac ychwanegu un plentyn dan 5 oed (ond nid dan 18 mis) at yr hyn y cytunir arno ar hyn o bryd. Ar ben hynny, mae newidiadau arfaethedig ar gyfer plant sydd i fod i ddechrau ysgol / addysg statudol amser llawn ym mis Medi, a fydd yn cael eu hystyried yn blant dros 5 oed yn ystod gwyliau'r haf cyn hynny at ddibenion y cymarebau sy'n berthnasol i warchodwyr plant. Hefyd, ar gyfer plant 3-5 oed mewn darpariaeth addysgol neu gyfuniad o ddarpariaeth addysgol a gofal plant cofleidiol yn ystod oriau ysgol mewn lleoliad arall am bum awr neu fwy y dydd, gellir ystyried eu bod dros 5 oed at ddibenion y cymarebau sy'n berthnasol i warchodwyr plant.

  Nododd yr adolygiad annibynnol o warchod plant fod diffyg llefydd ar gael yn aml i frodyr a chwiorydd oherwydd y cymarebau sy'n effeithio ar barhad gofal i’r teuluoedd. Os cytunir ar y newidiadau arfaethedig, bydd hyn yn helpu i gefnogi cynaliadwyedd y sector gwarchod plant a pharhad gofal i deuluoedd a phlant. Bydd hyn yn effeithio’n gadarnhaol ar blant mewn lleoliadau gwarchod plant ledled Cymru drwy sicrhau parhad gofal a’u bod yn cael aros gyda’u brodyr a’u chwiorydd, sy’n effeithio’n gadarnhaol ar eu llesiant.

- **Yr angen i ofal plant ddarparu amgylchedd diogel y gellir ymddiried ynddo lle gall plant ddysgu, cymdeithasu a datblygu:** Mae hyn yn cysylltu â'n cynnig ar gyfer darpariaeth o ansawdd uchel lle bydd llais y plentyn yn cael ei gynnwys ym

mhob un o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r ymgynghoriad yn bwriadu diweddaru'r rhan "*Beth rydym yn ei olygu wrth ddarpariaeth o Ansawdd Uchel*" ym mhennod agoriadol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i gryfhau ymhellach ansawdd gwybodaeth a gofynion fel eu bod yn cyd-fynd ag egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Os cytunir ar y newidiadau arfaethedig, bydd hyn yn helpu i ddarparu cysylltiad cliriach rhwng egwyddorion y cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a bydd yn tynnu sylw darparwyr at yr hyn a ddisgwylir ganddynt i gyflawni arferion gorau a darpariaeth o ansawdd uchel a fydd yn eu helpu i gynnig gwasanaethau chwarae, dysgu a gofal plant o ansawdd uchel. Bydd y newidiadau arfaethedig hefyd yn galluogi rhieni a gofalwyr i gael gwell dealltwriaeth o beth yw gofal plant o ansawdd uchel, a allai hefyd eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus wrth ddewis gofal plant.

**Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Phlant**

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynigion i newid elfennau o'r Safonau. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol i ganllawiau'r Safonau sy'n effeithio ar ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaethau yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Fel rhan o'r adolygiad o'r Safonau, cynhaliwyd digwyddiadau cyn ymgynghori a gweithgorau a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth o sefydliadau a darparwyr cofrestredig y sector gofal plant a chwarae gan gynnwys AWARE (arweinwyr gofal plant awdurdodau lleol), Gofal Cymdeithasol Cymru (sy'n rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru), Estyn (arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru), Arolygiaeth Gofal Cymru (rheoleiddio ac arolygu annibynnol ar gyfer lleoliadau gofal plant yng Nghymru) Chwarae Cymru a CWLWM (consortiwm o bum partner gofal plant a chwarae). Chwarae Cymru, partneriaid CWLWM ac arweinwyr gofal plant a chyfleoedd chwarae mewn awdurdodau lleol yw llais y sector gofal plant a reoleiddir yng Nghymru.

Ar ben hynny, mae rhai argymhellion o'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae yn cael eu hystyried yn yr ymgynghoriad hwn, ac mae canfyddiadau'r adolygiad hwnnw'n adlewyrchu gweithgareddau ymgysylltu â phlant, gyda'u safbwyntiau'n cael eu hymgorffori yn yr argymhellion. Mae'r mesurau hyn wedi sicrhau bod yr adolygiad yn ystyried safbwyntiau plant.

Bydd y sefydliadau allweddol hyn yn cefnogi'r broses ymgynghori drwy gyfathrebu'n drylwyr â darparwyr gofal plant a gwaith chwarae ar draws y sector. Rydym wedi ymrwymo o hyd i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid i nodi heriau a mynd i'r afael â nhw, gan lywio gwelliannau parhaus i'r Safonau.

Nod y cynnig yw sicrhau darpariaeth chwarae, dysgu a gofal plant o ansawdd uchel yng Nghymru sy'n cefnogi gweithlu proffesiynol a chynaliadwy. Mae gweledigaeth yn y tymor hir o gefnogi a datblygu'r gwaith o recriwtio staff medrus ar draws lleoliadau a chefnogi'r gwaith o gadw staff yn y gweithlu gofal plant. Canlyniad arfaethedig yr ymgynghoriad yw casglu barn y cyhoedd yn gyffredinol ar gynigion.

Bydd yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei ddiweddaru ar ôl canlyniad yr ymgynghoriad ac, fel rhan o waith ymgysylltu parhaus, byddwn yn asesu effaith y

newidiadau ar waith. Wrth ddatblygu llais y plentyn ym mhob un o'r Safonau i gyd-fynd ag egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ar gyfer gofal plant a chwarae o ansawdd uchel, byddwn yn ymgysylltu'n eang â'r rheini sy'n defnyddio ac yn gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Gan fod y newidiadau arfaethedig i'r Safonau yn ymwneud yn bennaf â phlant dan 5 oed, rhieni fydd yn gyfrifol am gwblhau'r ymgynghoriad ar ran eu plant. Mae rhannau o'r ymgynghoriad yn cyfeirio at y lleoliadau chwarae mynediad agored i blant 5 oed a hŷn. Bydd fersiwn hawdd ei darllen o'r ddogfen ymgynghori, ynghyd â ffurflen ymateb, ar gael i hwyluso'r broses hon i rieni. Bydd y cynllun hwn yn cael ei hyrwyddo drwy amrywiol rwydweithiau, gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru a Plant yng Nghymru, i annog rhieni i gymryd rhan yn y broses o gasglu barn plant fel y bo'n briodol.

O ran datblygu llais y plentyn a chanlyniadau llesiant ym mhob un o'r Safonau i gyd-fynd ag egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, rydym yn bwriadu ymgysylltu â phlant drwy Plant yng Nghymru i'n helpu gyda'r datblygiad hwn. Bydd hyn yn sicrhau bod llais plant a rhieni yn cael ei glywed drwy grwpiau ffocws wrth ddatblygu'r rhannau hyn o safonau a bydd yn ein helpu i ddarparu dull cyson o feithrin, dysgu a datblygu i bob plentyn mewn gofal plant sy'n seiliedig ar chwarae a chyfleoedd addysg gynnar o ansawdd uchel, gan ganiatáu iddynt ffynnu. Byddwn hefyd yn rhoi sylw dyledus i Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n datgan: *mae gan blant yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd yn eu barn nhw pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.* Mae lleisiau plant ifanc yn cael eu clywed mewn amrywiaeth o ffyrdd a dim ond un ffordd o gyfathrebu yw 'llais', yn enwedig ar gyfer plant iau a phlant 0-5 oed.

Felly, bydd angen amrywiaeth o ddulliau creadigol o glywed a gwrando ar lais plant wrth ddatblygu eu llais a chanlyniadau llesiant. Ar ôl ymgynghori, bydd detholiad o gwestiynau'n cael eu cynllunio ar sail lefel ddatblygiadol a gallu'r grŵp oedran hwn i gefnogi ymgysylltu ystyrlon.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector (gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau ymbarél ac yn uniongyrchol gyda darparwyr, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill) i sicrhau eu bod yn cael gwybod am ddatblygiadau. Gan ystyried hyn, bydd camau'n cael eu cymryd, lle bynnag y bo modd, i sicrhau bod gwybodaeth hygyrch yn cael ei darparu. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y cynigion ag amrywiaeth eang o randdeiliaid yn ystod tymor yr hydref 2025, a byddwn yn cyhoeddi Crynodeb o'r Ymateb erbyn tymor y gwanwyn 2026 ac yn gwneud y newidiadau angenrheidiol fesul cam ar ôl hynny. Bydd geiriad canllawiau terfynol y Safonau'n seiliedig ar adborth a geir o'r ymgynghoriad.

Ystyrir yr effeithiau ar gyfer y darn neu'r gwaith hwn yn rhai cadarnhaol.

**Cysylltiadau â meysydd polisi eraill**

Mae diwygiadau arfaethedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol wedi cael eu hystyried ochr yn ochr â'r adolygiad presennol o Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd

(Cymru) 2010. Ystyriwyd y Safonau presennol sy'n ymwneud â phlant o wahanol oedrannau wrth nodi diwygiadau posibl i wella'r broses o ddiogelu'r plant ieuengaf, mwyaf agored i niwed. Ystyriwyd hefyd safonau penodol yn ymwneud â gwahanol fathau o leoliadau.

## 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Bydd y newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed yn effeithio ar ddiogelwch a llesiant plant drwy gryfhau safonau a darparu mwy o eglurder ac arweiniad i ddarparwyr gofal plant o ran sut maent yn bodloni'r safonau gofynnol. Mae ffocws ar gefnogi cynaliadwyedd y sector a datblygu cyflogaeth staff ar draws lleoliadau i recriwtio gweithwyr medrus iawn a allai ganiatáu i leoliadau sy'n cael trafferth ar hyn o bryd aros yn weithredol. Bydd ffocws ar ddatblygu llais y plentyn a chynnwys canlyniadau llesiant drwy'r Safonau. Bydd hyn yn sicrhau bod digon o ofal plant o ansawdd uchel ar gael i ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd, a bydd yn sicrhau bod canlyniadau i blant yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac yn effeithio'n gadarnhaol ar bob plentyn mewn lleoliadau gofal plant a chwarae.

Mae'r Safonau yn cydnabod bod gan bawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac yn gofalu amdanynt rôl i'w chyflawni o ran hyrwyddo hawliau plant a'u helpu i gyflawni eu potensial fel unigolion.

Mae mesurau i liniaru effeithiau posibl y cynigion wedi cael eu nodi drwy weithgorau arbenigol penodol.  Mae canlyniadau'r cynigion a geisir wedi cael eu hystyried ac mae unrhyw newidiadau a gynigir yn cael eu gosod yn erbyn budd gorau'r plant a'r cyd-destun y maent yn cael gofal ynddo.  Cefnogir y cynigion gan fesurau diogelu ac asesiadau risg ychwanegol perthnasol fel y nodir gan reoliadau a gofynion perthnasol darparwyr cofrestredig.

Mae darpariaeth o ansawdd uchel yn canolbwyntio ar y plentyn, yn gynhwysol ac yn ymatebol. Mae'n sicrhau bod gan bob babi a phlentyn yr hawl i gael ei glywed, yr hawl i chwarae a'r hawl i deimlo'n ddiogel a'i fod yn cael ei feithrin mewn amgylchedd sy'n parchu bod yn unigryw. Cyflawnir hyn drwy alluogi oedolion, amgylcheddau effeithiol a phrofiadau diddorol drwy Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hawliau plant, fel yr amlinellir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn sail i ddarpariaethau o ansawdd uchel. Mae hyn yn golygu sicrhau bod:

- Babanod a phlant yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag niwed (Erthygl 19).
- Bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u parchu mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt (Erthygl 12)
- Bod ganddynt amser a lle i chwarae, archwilio a datblygu ar eu cyflymder eu hunain. (Erthygl 31).

- Bod eu llesiant emosiynol, eu gofal a'u dysgu yn flaenoriaeth mewn amgylcheddau meithringar.

Mae’r tabl isod yn amlinellu’r erthyglau CCUHP sydd fwyaf perthnasol i'r adolygiad presennol o Safonau Gofynnol Cenedlaethol 2024-2025.

| Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn neu Brotocol Dewisol | Yn gwella (X) | Heriau (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| **2. Peidio â gwahaniaethu**<br><br>Mae’r Confensiwn yn berthnasol i bawb beth bynnag fo’u hil, crefydd, gallu, beth bynnag y maent yn ei feddwl neu’n ei ddweud neu ba fath bynnag o deulu y maent yn dod ohono. | X | | Bydd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol diwygiedig yn berthnasol i bob lleoliad gofal plant a chwarae cofrestredig sy'n gofalu am blant o'u genedigaeth hyd at 12 oed.<br><br>Gall darpariaeth gofal plant o ansawdd uchel ddylanwadu’n gadarnhaol ar ddatblygiad plentyn a'i helpu i ddatblygu i'w lawn botensial. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant o gefndiroedd difreintiedig yn elwa mwy o ofal plant o ansawdd uchel a'i fod yn gallu helpu i unioni anfanteision datblygiadol a'r bwlch cyrhaeddiad.<br><br>Mae rhai o’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol eisoes yn ymwneud â chyfle cyfartal i blant ac maent yn adlewyrchu hawliau plant. Mae’r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau o dan safon 16 Cydraddoldeb bod cyfle cyfartal ac arferion gwahaniaethol yn cael eu hyrwyddo yn eu lleoliad cofrestredig, a rhaid iddynt feddu ar bolisi cydraddoldeb a bodloni rheoliadau a safonau perthnasol.  Mae deddfwriaeth gwrth-wahaniaethol a chysylltiadau ag arferion da yn cael eu hyrwyddo yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Rydym eisoes wedi ymrwymo i barhau i adolygu’r rhain.<br><br>Nod craidd 5 Llywodraeth Cymru ar sail CCUHP yw y dylid gwrando ar blant, eu trin â pharch, a chydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae’r newidiadau arfaethedig i greu hyblygrwydd o ran cymarebau ar gyfer gwarchodwyr plant yn sicrhau y bydd plant yn cael y budd o gael gofal gan weithiwr proffesiynol hysbys a chael y gofal hwnnw gyda'u brodyr a'u chwiorydd. Bydd rhieni'n gallu dewis gwarchodwr plant a fyddai, yn eu barn nhw, yn diwallu anghenion eu plant orau ac yn gofalu am eu plant gyda'i gilydd. Gall hyn fod yn arbennig o arwyddocaol i rieni plant anabl, y rheini sydd â dewisiadau diwylliannol, crefyddol neu iaith a rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol.<br><br>Bydd egwyddorion ECPLC yn cael eu rhoi ar waith drwy'r Safonau i gyd. Mae'r rhain wedi ymrwymo i wreiddio cydraddoldeb ac annog pobl i beidio â gwahaniaethu, gan fabwysiadu dull cynhwysol sy'n seiliedig ar hawliau plant ym mhopeth a wnawn. Maent hefyd yn cefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc i sicrhau bod llais plant a rhieni'n cael ei ystyried mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Maent yn gwneud cyfraniad sylweddol at liniaru effaith anghydraddoldebau, boed yn hiliaeth, tlodi, anableddau neu ffactorau cymdeithasol eraill.  Er enghraifft, diffyg cyfleoedd sy'n gallu effeithio’n barhaol ar fywydau unigolion. Mae'r safonau'n helpu i gael gwared ar rwystrau i sicrhau bod babanod a phlant ifanc yn cael eu cefnogi i gael plentyndod hapus a boddhaus.<br><br>Mae Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru (2022) yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu cymdeithas gynhwysol a theg i'r holl bobl a chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru.<br><br>Bydd y newidiadau arfaethedig yn parhau i gefnogi plant yn y maes hwn beth bynnag fo'u cefndir a bydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cysylltiadau ag adnoddau gwrth-hiliaeth ac arferion gorau yn cael eu cynnwys yn y Safonau os caiff y cynnig ei gymeradwyo. |
| **3. Budd Gorau'r Plentyn**<br><br>Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn. | X | | Rhaid i fudd gorau'r plant fod yn brif ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Drwy gydol yr adolygiad o'r Safonau, mae'r nod o hyrwyddo mesurau diogelwch cadarn i blant wedi bod yn ystyriaeth ganolog, ac mae pob penderfyniad wedi cael ei wneud gyda hyn mewn golwg. Lle gallai fod unrhyw effeithiau negyddol yn gysylltiedig â chynigion, mae mesurau lliniaru wedi cael eu hystyried yn ofalus.<br><br>Os bydd y newid arfaethedig i safon 13: Person Addas (GP) ac Atodiad A - Canllawiau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cynorthwywyr Gwarchod Plant yn cael ei gymeradwyo, bydd yn golygu y gellir cyflogi cynorthwywyr gwarchod plant heb gymhwyster ffurfiol, ar yr amod eu bod yn cwblhau'r cymhwyster o fewn 6 mis. Fodd bynnag, gan y gallai hyn gael effaith negyddol bosibl ar blant sy'n derbyn gofal os oes diffyg gwybodaeth, rydym wedi ystyried diwygiadau i Safon 13.4 (CM) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol. Mae hyn yn golygu na fydd y cynorthwyydd yn gallu bod yn gwbl gyfrifol am blant yn ystod y cyfnod hwn / heb oruchwyliaeth, nes ceir y cymhwyster.<br><br>Ar ben hynny, mae'r newidiadau arfaethedig i ddiwygio'r cymarebau gwarchod plant presennol o dan safon 15 (GP) yn ceisio ychwanegu un plentyn arall at nifer y plant o dan 5 oed y gellir gofalu amdanynt (ond nid plant o dan 18 mis oed). Y bwriad yw y byddai AGC, drwy arolygiadau, yn asesu a yw anghenion plant yn cael eu diwallu ac os oes angen cymarebau is ar gyfer anghenion plant, yna rhaid rhoi blaenoriaeth i hyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Bydd y cynigion i ddiwygio Safon 13 (GD) Person Addas, os cytunir arnynt, yn cyflwyno geiriad ychwanegol i egluro sut mae staff yn cael eu defnyddio ar draws lleoliadau. Bydd hyn hefyd yn rhoi gwybodaeth am achosion lle gall lleoliadau gynnwys gwirfoddolwyr neu staff ychwanegol, sy'n uwch na'r cymarebau gofynnol oedolion:plant, i ddiwallu anghenion unigol. Er y bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr ddefnyddio staff yn effeithiol, yn seiliedig ar anghenion plant a chymwyseddau staff yn eu lleoliad, gallai hyn effeithio'n negyddol ar blant os na chaiff ei gynllunio a'i ystyried yn ofalus yn dibynnu ar lefelau staffio unigol pob lleoliad. Felly, rydym wedi lliniaru unrhyw risgiau drwy ei gwneud yn glir bod yn rhaid bodloni'r cymarebau gofynnol oedolion:plant o hyd ac efallai na fydd unrhyw aelod o staff sydd wedi'i gyflogi i weithio gyda phlant penodol i ddarparu cymorth ychwanegol yn cael ei gyfrif yn y cymarebau staffio safonol ac y bydd yn cael ei gyflogi i wella'r gwasanaeth.<br><br>Mae'r newidiadau arfaethedig i'r safonau Chwarae Mynediad Agored yn ceisio diwygio Safon 10 ar gyfer hyfforddiant Cymorth Cyntaf mewn lleoliadau o'r fath i sicrhau bod gan o leiaf un person gymhwyster cymorth cyntaf (cwrs llawn) bob amser. Gallai hyn gael effaith negyddol bosibl ar blant os na chaiff ei gynllunio'n ofalus. Felly, gan gydnabod manteision cael swyddogion cymorth cyntaf cymwys yn bresennol, i liniaru unrhyw risgiau, rydym yn cynnig mabwysiadu dull asesu risg i bennu'r niferoedd gofynnol o staff sydd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Dylai'r dull hwn ystyried y math o wasanaeth a gweithgareddau sy'n cael eu darparu, lleoliad a maint y ddarpariaeth, ac anghenion penodol y plant, yn hytrach na chadw at ofyniad penodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Nod craidd 1 Llywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar CCUHP, yw y dylai plant gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd fel sylfaen i dyfu a datblygu yn y dyfodol.<br><br>Mae egwyddorion ECPLC, a fydd yn cael eu gwreiddio drwy'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, wedi ymrwymo i ddarpariaeth o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y plentyn, yn gynhwysol ac yn ymatebol. Maent yn sicrhau bod gan bob babi a phlentyn yr hawl i gael ei glywed, yr hawl i chwarae a'r hawl i deimlo'n ddiogel a'i fod yn cael ei feithrin mewn amgylchedd sy'n parchu bod yn unigryw. Cyflawnir hyn drwy alluogi oedolion, amgylcheddau effeithiol a phrofiadau diddorol.<br><br>Yn ystod yr ymarferion ymgysylltu â phlant cyn yr ymgynghoriad i adolygu 'Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010' a'r 'Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed', cafwyd tystiolaeth i bennu beth yw gofal plant da. Cafwyd safbwyntiau gan grŵp amrywiol o rieni a barn gan blant (gan gynnwys plant anabl a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol) mewn perthynas â gofal plant a sut maent yn teimlo am fynd i leoliadau o'r fath. Mae hyn wedi ein helpu i ddeall sut mae ein penderfyniadau'n effeithio ar blant, beth sy'n bwysig iddynt a beth mae angen i ni ei wneud i gyflawni eu buddiannau gorau.<br><br>Bydd y Safonau diwygiedig yn canolbwyntio ar yr angen i ddiogelu ac amddiffyn plant yn briodol mewn lleoliadau gofal plant a chanolbwyntio ar y canlyniadau gorau ar gyfer eu llesiant. Bydd y newidiadau a gynigir yn parhau i gefnogi'r hyn sydd orau i bob plentyn. |
| **5. Arweiniad rhieni a gallu plant i ddatblygu** | **X** | | Nod yr adolygiad o'r Safonau yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd, a chyfarwyddo ac arwain eu plant fel eu bod, wrth iddynt dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio eu hawliau'n briodol. | | | gafael ar wasanaethau gofal plant a chwarae rheoleiddiedig sy'n ddiogel, o ansawdd uchel ac sy'n cael eu rhedeg gan weithlu proffesiynol. Ei nod yw rhoi mwy o hyblygrwydd ac eglurder o ran gofynion y Safonau, gyda'r nod o gefnogi cynaliadwyedd a hyfywedd darparwyr preifat, trydydd sector a chyhoeddus ar yr un pryd â pharhau i flaenoriaethu diogelwch a llesiant y plant sy'n cael eu gwarchod.<br><br>Gall rhieni fod yn dawel eu meddwl bod eu plant yn cael gofal mewn amgylcheddau diogel sy'n cael eu rhedeg yn dda oherwydd argaeledd safonau a chanllawiau clir. Felly, bydd gan rieni/gofalwyr a theuluoedd opsiynau wrth ddewis gofal plant er mwyn gallu cydbwyso eu gwaith a blaenoriaethau eu teulu.<br><br>Mae'r broses adolygu'n rhoi ystyriaeth helaeth i anghenion a diddordebau amrywiol teuluoedd a phlant ledled Cymru. Ein nod yw cefnogi'r hawl i deuluoedd allu gwneud dewisiadau am y gwasanaethau gofal plant a chwarae rheoleiddiedig sy'n diwallu eu hanghenion.<br><br>Mae egwyddorion ECPLC yn cydnabod ac yn adeiladu ar bwysigrwydd cydweithio â rhieni a gofalwyr eraill i gefnogi pob babi a phlentyn ifanc i gael y dechrau gorau mewn bywyd ac i deimlo bod pobl yn eu grymuso, yn gofalu amdanynt ac yn eu meithrin. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6. Bywyd, Goroesi a Datblygu**<br><br>Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd. Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach. | **X** | | Gall darpariaeth gofal plant o ansawdd uchel ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddatblygiad plentyn a'i helpu i ddatblygu i'w lawn botensial.<br><br>Bydd yr adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn rhan hollbwysig o'r gwaith o helpu i sicrhau bod plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a phriodol.<br><br>Nod craidd 3 Llywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar CCUHP, yw y dylai plant fwynhau'r iechyd corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan gynnwys rhyddid rhag camdriniaeth, erledigaeth a chamfanteisio.<br><br>Mae egwyddorion ECPLC yn cefnogi plant i gael yr hawl i dyfu, dysgu a chwarae mewn amgylchedd hapus, iach, diogel a chynhwysol. |
| **12.Parchu barn y plentyn.**<br><br>Mae gan blant yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i gael rhywun i ystyried eu barn. | **X** | | Fel rhan o'r adolygiad, cawsom safbwyntiau gan grŵp amrywiol o rieni a phlant (gan gynnwys plant anabl a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol) mewn perthynas â gofal plant a sut maent yn teimlo am fynd i leoliadau o'r fath.<br><br>Mae hyn wedi ein helpu i ddeall sut mae ein penderfyniadau'n effeithio ar blant, beth sy'n bwysig iddynt a beth mae angen i ni ei wneud i gyflawni eu buddiannau gorau. Buom yn gweithio gyda Plant yng Nghymru drwy grwpiau ffocws a chwestiynau wedi'u fframio i ganfod beth yw gofal plant da. Wrth asesu effaith unrhyw newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn yr ymgynghoriad, rydym wedi ystyried y pynciau eang sydd wedi dod i'r amlwg o ganfyddiadau'r ymarfer.<br><br>Mae egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cefnogi lleisiau plant i gael eu clywed a'u parchu mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn mynnu bod gan ddarparwyr weithdrefnau i blant / rhieni gwyno os ydynt yn anhapus â'u gofal / gwasanaeth. Dylid cyfeirio pob rhiant sy'n defnyddio gwasanaethau gofal plant a chwarae yng Nghymru at y Safonau Gofynnol Cenedlaethol fel canllaw arfer da.<br><br>Byddwn yn datblygu dogfen ymgynghori hawdd ei darllen i helpu i ddosbarthu'r ddogfen yn eang ymysg rhieni wrth geisio barn plant a phobl ifanc ar y cynigion. |
| **18. Cyfrifoldebau rhieni a chymorth gan y wlad**<br><br>Mae'r ddau riant yn rhannu'r cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent bob amser ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn. Rhaid i lywodraethau helpu rhieni drwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio. | **X** | | Mae darpariaethau gofal plant yn rhan hollbwysig o fywydau teuluoedd Cymru. Maent yn galluogi rhieni a gofalwyr i weithio a chael hyfforddiant, a all yn ei dro helpu teuluoedd i symud allan o dlodi.<br><br>Nod yr adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw cefnogi cynaliadwyedd a hyfywedd darparwyr preifat, trydydd sector a chyhoeddus ar yr un pryd â pharhau i flaenoriaethu diogelwch a llesiant plant sy'n cael eu gwarchod. Drwy sicrhau bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael eu diwygio a'u bod yn addas i'r diben, gall rhieni fod yn dawel eu meddwl bod eu plant yn cael gofal mewn amgylchedd saff a diogel.<br><br>Gall rhieni cymwys sy'n defnyddio gofal plant cofrestredig gael mynediad at leoliadau sydd wedi'u cofrestru i ddarparu cynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru fel Dechrau'n Deg a Chynnig Gofal Plant Cymru. Ar ben hynny, gallant ddefnyddio cynlluniau Gofal Plant Di-dreth neu gynlluniau Gofal Plant Credyd Cynhwysol sy'n gallu eu cefnogi'n ariannol, a chael opsiynau wrth ddewis gofal plant er mwyn iddynt allu cydbwyso blaenoriaethau eu gwaith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | a'u teulu a dod o hyd i leoliad sy'n diwallu anghenion eu plant orau. |
| **19. Amddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod.**<br><br>Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn cael gofal priodol, a'u hamddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt. | **X** | | Mae Llywodraeth Cymru yn monitro sut mae darparwyr yn gofalu am blant ac yn eu diogelu drwy swyddogaethau cofrestru ac arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru. Fel rhan o'r prosesau hyn, maent yn ystyried y gofal a roddir gan ddarparwyr, a llesiant a datblygiad plant. Disgwylir i ddarparwyr fodloni'r Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd yn ogystal â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a nodir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys rhwymedigaethau adrodd a hyfforddiant diogelu. Mae'r mesurau hyn yn hanfodol i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn yn briodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob darparwr lynu wrth y ddogfen 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymarfer Diogelu' i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu gan bob darparwr gofal plant ledled Cymru.<br><br>Yn unol â'r ymrwymiad hwn, mae safon 20 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer plant hyd at 12 oed yn nodi'r canlyniadau a fwriedir, bod plant yn cael eu diogelu rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod a bod rhieni'n hyderus bod pob cam posibl yn cael ei gymryd i ddiogelu plant a bod diogelu'r plentyn yn flaenoriaeth ac yn gyfrifoldeb i bawb. Mae'r safon hon hefyd yn cefnogi lleoliadau gofal plant i ddatblygu eu polisïau diogelu eu hunain yn unol â gweithdrefnau Diogelu Cymru a chael gafael ar hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl gofal plant. Yn ogystal â hyn, mae Safon 13.4 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn nodi bod yr holl staff cyflogedig yn cael goruchwyliaeth un-i-un reolaidd sy'n eu hannog i godi unrhyw bryderon diogelu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Nod craidd 3 Llywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar CCUHP, yw i blant fwynhau'r iechyd corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan gynnwys rhyddid rhag camdriniaeth, erledigaeth a chamfanteisio.<br><br>Nod craidd 6 Llywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar CCUHP, yw bod gan blant gartref diogel a chymuned sy'n cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol.<br><br>Bydd yr adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn rhan hollbwysig o'r gwaith o helpu i sicrhau bod plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a phriodol.<br><br>Mae egwyddorion ECPLC yn cefnogi babanod a phlant i deimlo'n ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag niwed. |
| **23.Plant ag anabledd.**<br><br>Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd gael cefnogaeth a chymorth arbennig fel y gallant fyw bywydau llawn ac annibynnol. | **X** | | Bydd yr adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn helpu i esbonio sut mae staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ddiwallu anghenion plant, gan gefnogi parhad gofal a chynaliadwyedd y sector, a gallai ganiatáu i leoliadau sy'n cael trafferth aros yn weithredol ar hyn o bryd yn ogystal â chanolbwyntio ar ddatblygu llais y plentyn drwy'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Bydd hyn yn sicrhau bod digon o ofal plant o ansawdd uchel ar gael i ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd a bydd yn sicrhau bod canlyniadau i blant yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar bob plentyn mewn lleoliadau gofal plant a chwarae.<br><br>Mae egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar wedi ymrwymo i wreiddio cydraddoldeb ac annog pobl i beidio â gwahaniaethu, gan fabwysiadu dull cynhwysol ym mhopeth a wnawn. Maent hefyd yn cefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc i sicrhau bod llais plant a rhieni'n cael ei ystyried |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.<br><br>Mae llawer o leoliadau'n gallu cynnig cynlluniau Gofal Plant Di-dreth neu Gredyd Cynhwysol Gofal Plant ar yr un pryd â'r Cynnig Gofal Plant, ar yr amod nad yw'r oriau'n cael eu hariannu ddwywaith. Mae Gofal Plant di-dreth neu Gredyd Cynhwysol ar gael i bob rhiant, gan gynnwys rhieni plant anabl, hyd at 1 Medi ar ôl eu pen-blwydd yn 16 oed.<br><br>Ar ben hynny, efallai y bydd lleoliadau sy'n rhoi'r Cynnig Gofal Plant hefyd yn gallu cael gafael ar Grant Cymorth Ychwanegol y Cynnig Gofal Plant i gefnogi plant anabl neu blant ag anghenion dysgu ychwanegol rhieni cymwys yn well. Mae hwn yn gyllid sy'n mynd yn uniongyrchol i leoliadau gofal plant i gefnogi'r plant dan sylw a galluogi'r lleoliad i ddarparu ar gyfer eu hanghenion, er enghraifft offer arbenigol neu staff un-i-un.<br><br>Rhaid i ddarparwyr ledled Cymru sy'n darparu gofal i blant ag anghenion unigol weithio yn unol â safon 4 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n nodi bod anghenion unigol pob plentyn, gan gynnwys unrhyw blant ag anableddau neu anghenion ychwanegol (gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol) yn cael eu cynllunio a'u diwallu.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw i rieni ar hawliau o dan y System Anghenion Dysgu Ychwanegol ac mae SNAP Cymru yn rhoi cyngor ac arweiniad annibynnol ar gymorth blynyddoedd cynnar i rieni plant ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu a allai fod ag anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>Adnabod anghenion yn gynnar sydd wrth wraidd rhaglen flaenllaw Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | hwn yn rhoi cymorth integredig i deuluoedd sy'n byw yn ardaloedd Dechrau'n Deg.<br><br>Bydd yr adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn parhau i gefnogi plant anabl, a'r rheini sydd ag anghenion gofal a dysgu ychwanegol. |
| **24. Iechyd a Gwasanaethau Iechyd**<br><br>Mae gan blant yr hawl i ofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân i aros yn iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. | **X** | | Mae mynediad at ofal plant a chwarae diogel o ansawdd uchel yn gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol plant. Rhaid i leoliadau gofal plant a gwaith chwarae sy'n darparu bwyd i blant sicrhau bod unrhyw brydau a byrbrydau mae plant yn eu cael yn gytbwys o ran maeth ac yn cyd-fynd â chanllawiau bwyd a maeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparwyr gofal plant.<br><br>Yn unol â'r ymrwymiad hwn, mae Safon 12 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn nodi bod plant yn cael digon o ddiodydd a bwyd yn rheolaidd ar gyfer eu hanghenion a bod dŵr yfed ffres ar gael i blant bob amser. Yn ogystal, mae Safon 22 yn canolbwyntio ar blant yn derbyn gofal mewn amgylchedd sy'n saff, yn ddiogel ac yn addas i'w pwrpas, gan ddarparu cyfle cyfoethog i chwarae.<br><br>Gall Llywodraeth Cymru fonitro sut mae sefydliadau'n hyrwyddo anghenion iechyd a maeth plant drwy gofrestriadau ac arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru. Fel rhan o'r prosesau hyn, maent yn ystyried y gofal a roddir gan ddarparwyr, y bwyd a'r dŵr a ddarperir iddynt a'r amgylchedd lle maent yn derbyn gofal.<br><br>Gall darparwyr cofrestredig cymwys wneud cais am gyllid cyfalaf i wella amgylchedd eu lleoliadau er budd y plant sy'n mynychu drwy'r Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar.<br><br>Mae egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cefnogi lleoliadau i weithio mewn ffordd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | systematig gyda phartneriaid eraill fel iechyd, addysg, y trydydd sector a gwasanaethau plant drwy fframwaith NYTH. Mae hyn yn helpu i gefnogi gwasanaethau blynyddoedd cynnar, fel cael mynediad at ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol i ddiogelu a chefnogi eu taith i fod yn hapus ac yn iach. Ar ben hynny, mae rhieni a phlant yn cael cymorth i gael gafael ar ddarpariaeth iechyd a rhaglenni cymorth fel darpariaeth mamolaeth sy'n rhoi gwybodaeth gynnar i deuluoedd am faterion iechyd y cyhoedd gan gynnwys byw'n iach a chamau cynnar magu plant. Mae pob Plentyn Cymru, sydd wedi cymryd lle Naw Mis a Mwy, yn rhoi gwybodaeth i rieni i'w cefnogi drwy feichiogrwydd, y 1,000 diwrnod cyntaf o fod yn rhiant ac yn ystod blynyddoedd cynnar plentyndod, er mwyn gwneud y penderfyniadau gorau ar gyfer eu hiechyd nhw ac iechyd eu plentyn neu eu plant. Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn nodi'r hyn y gall plant y bwriedir cysylltu â nhw a'u teuluoedd, ei ddisgwyl gan eu byrddau iechyd, gwasanaethau mamolaeth ac ymwelwyr iechyd.<br><br>Bydd yr adolygiad o’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn sicrhau bod gan blant yr hawl i ofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân mewn lleoliad cofrestredig er mwyn aros yn iach. |
| **28. Yr hawl i addysg.**<br><br>Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. | **X** | | Mae Safon 7 yn cefnogi cyfleoedd chwarae a dysgu ar draws pob lleoliad gofal plant yng Nghymru. Mae'r safon hon yn canolbwyntio ar blant yn cael amrywiaeth o brofiadau, gan gynnwys chwarae rhydd, distrwythur a hunangyfeiriedig, sy'n cyfrannu at eu datblygiad emosiynol, corfforol, cymdeithasol, deallusol, ieithyddol a chreadigol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Nod craidd 2 Llywodraeth Cymru sy’n seiliedig ar CCUHP yw bod plant yn gallu manteisio ar amrywiaeth cynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys ennill sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol.<br><br>Bydd darparwyr Gofal Plant Cofrestredig ledled Cymru yn darparu addysg feithrin a ariennir yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn berthnasol i bob plentyn rhwng tair ac un ar bymtheg oed, gan gynnwys plant mewn meithrinfeydd a lleoliadau blynyddoedd cynnar. Mae'r cwricwlwm yn canolbwyntio ar bum llwybr datblygu allweddol sydd wedi'u gwreiddio yn natblygiad plant: Perthyn, Cyfathrebu, Archwilio, Datblygiad Corfforol a Llesiant. Mae hefyd yn pwysleisio pa mor bwysig yw dysgu drwy greu a manteisio ar brofiadau dilys a phwrpasol.<br><br>Ar gyfer y plant hynny sydd o dan 3 oed, bydd lleoliadau gofal plant yn dilyn y dull Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, sy'n ddull integredig o ymdrin ag addysg a gofal plant. Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cyd-fynd â'r cwricwlwm ehangach i Gymru, gan bwysleisio ar ddatblygiad cyfannol a llesiant. Mae'n canolbwyntio ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol plentyn drwy brofiadau chwarae a dysgu. Mae'r canllawiau a ddarperir i gefnogi dysgu a datblygu o enedigaeth ymlaen yn cyd-fynd ag ethos y Cwricwlwm i Gymru i gefnogi plant i bontio’n llyfn.<br><br>Mae egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cefnogi'r gwaith o ddarparu addysg gyson i blant drwy gyfleoedd addysg a gofal plant seiliedig ar chwarae o ansawdd uchel, gan ganiatáu iddynt ffynnu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'r cynigion a nodir fel rhan o'r adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn canolbwyntio ar ddatblygu gweithlu proffesiynol, medrus iawn a gwerthfawr a fydd, yn ei dro, yn helpu i gefnogi addysg plant yn ogystal â chanolbwyntio ar gysoni safonau ag egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar drwy ganlyniadau a llais y plentyn, gyda chysylltiadau â dogfennau arferion gorau i gefnogi gofal plant a chwarae o ansawdd uchel ymhellach. |
| **30. Plant o grwpiau lleiafrifol neu frodorol.**<br><br>Mae gan blant yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un a yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl yn y wlad ai peidio. | **X** | | Nod craidd 5 Llywodraeth Cymru ar sail CCUHP yw y dylid gwrando ar blant, eu trin â pharch, a chydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol. Mae’r newidiadau arfaethedig i sicrhau hyblygrwydd o ran y cymarebau gwarchodwyr plant yn sicrhau y bydd rhieni'n gallu dewis gwarchodwr plant a fyddai, yn eu barn nhw, yn diwallu anghenion eu plentyn orau ac yn gofalu am eu plant gyda'i gilydd. Gall hyn fod yn arbennig o arwyddocaol i rieni plant anabl, y rheini sydd â dewisiadau diwylliannol, crefyddol neu iaith a rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol.<br><br>Mae Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru (2022) yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu cymdeithas gynhwysol a theg i'r holl bobl a chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru. Yn unol â'r ymrwymiad hwn, mae safon 4.4 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn nodi bod anghenion a dewisiadau plant unigol (gan gynnwys y rhai o gymunedau lleiafrifoedd ethnig) mewn perthynas ag iaith/ieithoedd eu cartref, cyfrwng arfaethedig addysg (ee Cymraeg neu Saesneg) a'u harferion cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol yn cael eu deall ac y darperir ar eu cyfer. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Bydd y newidiadau arfaethedig a'r diweddariadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn parhau i gefnogi plant beth bynnag fo'u cefndir. Bydd cysylltiadau ag adnoddau gwrth-hiliaeth ac arferion gorau hefyd yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cynnig |
| **31. Hamdden, Chwarae ac Ymlacio**<br><br>Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn amrywiaeth eang o weithgareddau. | **X** | | Mae Adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae yn cydnabod bod chwarae yn ganolog i iechyd a llesiant corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant. I'r plant eu hunain, mae chwarae yn un o’r agweddau pwysicaf yn eu bywydau. Maent yn gwerthfawrogi amser, rhyddid a llefydd o ansawdd da i chwarae."<br><br>Mae lleoliadau gofal plant a chwarae yn gyfleoedd amrywiol i blant chwarae ac mae Safon 7 yn cefnogi cyfleoedd chwarae a dysgu ar draws pob lleoliad gofal plant cofrestredig yng Nghymru. Mae'r safon hon yn canolbwyntio ar blant yn cael amrywiaeth o brofiadau, gan gynnwys chwarae rhydd, distrwythur a hunangyfeiriedig, sy'n cyfrannu at eu datblygiad emosiynol, corfforol, cymdeithasol, deallusol, ieithyddol a chreadigol.<br><br>Nod craidd 4 Llywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar CCUHP, yw bod plant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol.<br><br>Mae'r cynigion a nodir yn adran 1 yr adolygiad o'r Safonau yn canolbwyntio ar ddatblygu gweithlu proffesiynol, medrus iawn a gwerthfawr a fydd, yn ei dro, yn helpu i gefnogi chwarae a gweithgareddau plant.<br><br>Nod dull cymesur o ymdrin â Chwarae Mynediad Agored yw cefnogi ei gynaliadwyedd a fydd yn sicrhau bod |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gwasanaethau o'r fath ar gael i blant eu defnyddio.<br><br>Mae egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cefnogi plant i gael amser a lle i chwarae, archwilio a datblygu ar eu cyflymder eu hunain. |
| **34.Camfanteisio Rhywiol**<br><br>Dylai'r Llywodraeth amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol. | **X** | | Mae Llywodraeth Cymru yn monitro sut mae darparwyr yn gofalu am blant ac yn eu diogelu drwy swyddogaethau cofrestru ac arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru. Fel rhan o'r prosesau hyn, maent yn ystyried y gofal a roddir gan ddarparwyr, a llesiant a datblygiad plant. Disgwylir i ddarparwyr fodloni'r Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd yn ogystal â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a nodir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys rhwymedigaethau adrodd a hyfforddiant diogelu. Mae'r mesurau hyn yn hanfodol i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn yn briodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob darparwr lynu wrth y ddogfen 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymarfer Diogelu’ i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu gan bob darparwr gofal plant ledled Cymru.<br><br>Yn unol â'r ymrwymiad hwn, canlyniadau Safon 20 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw i blant gael eu diogelu rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod ac i rieni fod yn hyderus bod pob cam posibl yn cael ei gymryd i ddiogelu plant a bod diogelu plant yn flaenoriaeth ac yn gyfrifoldeb i bawb. Mae'r safon hon hefyd yn cefnogi lleoliadau gofal plant i ddatblygu eu polisïau diogelu eu hunain yn unol â gweithdrefnau Diogelu Cymru a chael gafael ar hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl gofal plant. Yn ogystal â hyn, mae Safon 13.4 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn nodi bod yr holl staff cyflogedig yn cael goruchwyliaeth un-i- |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | un reolaidd sy'n eu hannog i godi unrhyw bryderon diogelu.<br><br>Nod craidd 3 Llywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar CCUHP, yw i blant fwynhau'r iechyd corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan gynnwys rhyddid rhag camdriniaeth, erledigaeth a chamfanteisio.<br><br>Bydd yr adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn rhan hollbwysig o'r gwaith o helpu i sicrhau bod plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a phriodol. |

- *Dylech ystyried a yw unrhyw rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.*

Bydd gan unigolion cymwys sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion fwy neu lai yr un hawliau parhaus i weithio, astudio a chael gafael ar wasanaethau cyhoeddus a budd-daliadau. Gall hawliau Dinasyddion yr UE fod yn berthnasol mewn perthynas â mynediad at systemau nawdd cymdeithasol - mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai a mynediad at ofal iechyd, mewn perthynas â phlant a oedd yn byw'n gyfreithlon yn y DU ar 31 Rhagfyr 2020. Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar yr hawliau hyn.

Gall dinasyddion yr UE sydd â statws preswylydd sefydlog neu cyn-sefydlog gofrestru gyda CThEF i gael taliadau drwy'r cynllun Gofal Plant Di-dreth a'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn i rieni cymwys allu defnyddio'r cynllun Credyd Cynhwysol Gofal Plant. Bydd dinasyddion yr UE sydd â statws preswylydd sefydlog neu gyn-sefydlog yn gallu manteisio ar y cynlluniau hyn yn unol â'r gofynion cymhwysedd eraill.

## 4. Cyngor i weinidogion a'u penderfyniad

Wrth lunio cyngor Gweinidogol mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar yr adolygiad o Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed, mae swyddogion wedi rhoi sylw dyledus i hawliau plant fel y nodir yn CCUHP. Mae tystiolaeth yn dangos bod darpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn hanfodol i'r canlyniadau i blant, a rhagwelir y bydd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Safonau yn effeithio'n gadarnhaol ar blant a phobl ifanc drwy sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar ddigon o ofal plant. Mae ein huchelgais ar gyfer gweithlu proffesiynol a chynaliadwy yn canolbwyntio ar ddeall y bydd adolygu a gwneud newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn helpu i leddfu rhywfaint o'r pwysau ar ddarparwyr drwy eu cefnogi i fodloni'r gofynion angenrheidiol a pharhau i gefnogi cynaliadwyedd y sector. Yn ei dro, bydd hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar ganlyniadau i blant a'u datblygiad, gan eu helpu i gyflawni eu llawn botensial.

Bydd cyngor Gweinidogol ar y newidiadau arfaethedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cadarnhau ein bod wedi ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddatblygu'r polisi hwn. Bydd y cyngor cysylltiedig yn crynhoi'r casgliad cyffredinol, yn unol â'r asesiad, y bydd y strategaeth yn effeithio'n gadarnhaol ar blant a phobl ifanc gyda'r holl ganlyniadau anfwriadol wedi cael eu hystyried a'u lliniaru.

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei awdurdodi gan ein Dirprwy Gyfarwyddwr ynghyd â'r Asesiad Effaith Integredig ehangach a bydd yn cael ei integreiddio i gyngor gweinidogol. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dylanwadu ar y dadansoddiad o effaith y polisi, yn enwedig effaith y polisi ar y plant a'r bobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau gofal plant a chwarae ledled Cymru. Bydd y dadansoddiad o'r effeithiau yn cael ei gynnwys mewn cyngor i'r Gweinidog yn y dyfodol a bydd yn nodi'r manteision a'r effeithiau a nodwyd hyd yma a'r rhai a gasglwyd drwy'r broses ymgynghori. Bydd yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei ddiweddaru yn dilyn canlyniad

yr ymgynghoriad ac os penderfynir y dylem fwrw ymlaen â'r cynigion, yna byddwn yn ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid allweddol ar fanylion y newidiadau arfaethedig. Bydd y Gweinidog yn cael ei friffio ar ganfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn rheolaidd drwy gydol y broses ymgynghori.

## 5. Cyhoeddi’r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant

Yn dilyn y penderfyniad gweinidogol, bydd yr Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ar ôl yr ymgynghoriad a chyn i'r Gweinidog wneud y penderfyniad terfynol ar unrhyw ddull o ymdrin â'r cynigion, byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau i ddiwygio ein hasesiadau effaith ac adolygu a diweddaru'r ddogfen yn ôl yr angen. Byddwn yn cyflwyno canfyddiadau i'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, gan amlinellu'r camau nesaf a allai gynnwys cynigion i fwrw ymlaen neu ddiwygio cyfeiriad y polisi. Os bydd newidiadau sylweddol i'r cynigion o ganlyniad i'r ymgynghoriad, bydd dogfen yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei hadolygu'n llawn.

## 6. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei sianeli digidol a'i rhwydweithiau presennol ar draws yr holl feysydd polisi perthnasol i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ac i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol i ganllawiau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau a darparwyr yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Gelwir ar gynrychiolwyr o amrywiaeth o sefydliadau a gymerodd ran mewn digwyddiadau a gweithgorau cyn yr ymgynghoriad i gefnogi'r broses ymgynghori, gan sicrhau ei bod yn cael cyhoeddusrwydd gyda'r gweithlu gofal plant a chwarae ar draws y sector a'i bod yn cael ei dosbarthu i rieni a phlant.

Bydd y ddogfen Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hon yn cael ei diweddaru ar ôl canlyniad yr ymgynghoriad ac os canfyddir effeithiau ychwanegol, bydd angen ymgysylltu'n eang â'r rheini sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae ac yn eu defnyddio, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Gan fod ein diwygiadau arfaethedig i'r Safonau yn ymwneud yn bennaf â phlant dan 12 oed, bydd fersiwn hawdd ei darllen o unrhyw ganlyniadau i'r ymgynghoriad yn cael ei chreu a bydd yn cael ei rannu â rhieni ar ran eu plant. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu lledaenu drwy rwydweithiau gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru a Plant yng Nghymru. Er bod dogfen hawdd ei darllen fel arfer wedi'i bwriadu ar gyfer unigolion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, credwn ei bod yn fwy addas ar gyfer ein cynulleidfa darged o blant o dan 12 oed, ar yr amod bod ganddynt gefnogaeth rhieni. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu hyn yn dilyn y crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ar ôl ymgynghori i sicrhau bod y penderfyniad hwn yn dal yn briodol.

Mae strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu lawn i roi gwybod i blant a phobl ifanc am ganlyniad yr adolygiad o’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol 2025 yn cael ei datblygu ar hyn o bryd a bydd crynodeb o'r ymgynghoriad yn cael ei rannu â sefydliadau a fydd yn cynnal grwpiau ffocws, i'w ledaenu ymhellach i blant a gymerodd ran.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector (gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau ymbarél ac yn uniongyrchol gyda darparwyr, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill) gan gynnwys plant a phobl ifanc i sicrhau eu bod yn cael gwybod am ddatblygiadau yn ystod y cam gweithredu. Gan ystyried hyn, bydd camau'n cael eu cymryd, lle bynnag y bo modd, i sicrhau bod gwybodaeth hygyrch yn cael ei darparu.

Fel rhan o'r gwaith hwn ac ymgysylltu parhaus, byddwn yn ystyried effaith unrhyw newidiadau tymor hir posibl i'r Safonau ar ddiogelwch ac ansawdd y gofal a ddarperir. Mae unrhyw gynigion wedi cael eu datblygu ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) sy'n arolygu lleoliadau cofrestredig ac aelodau o gonsortiwm gofal plant CWLWM a Chwarae Cymru sy'n cynrychioli darparwyr gofal plant a gwaith chwarae.

## 7. Monitro ac Adolygu

Ym mhob cam o ddatblygu polisi, bydd effaith y polisi'n cael ei hasesu a'i hadolygu. Mae'r CRIA yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei diweddaru ar ôl yr ymgynghoriad i nodi a yw'r effeithiau tebygol a nodwyd yn wreiddiol wedi dwyn ffrwyth, ac a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol pellach. Byddwn yn defnyddio canfyddiadau'r ymgynghoriad, gan gynnwys ymatebion i'r cwestiwn sy'n gofyn am farn ar yr effaith ar hawliau plant i adolygu'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, ac yn diwygio'r dystiolaeth o effaith yn unol â hynny mewn perthynas â sut gallai'r cynigion effeithio ar blant.

Os bydd newidiadau sylweddol i'r cynigion o ganlyniad i'r ymgynghoriad, bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei hadolygu'n llawn. Byddwn yn cyflwyno canfyddiadau i'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, gan amlinellu'r camau nesaf a allai gynnwys cynigion i fwrw ymlaen neu ddiwygio cyfeiriad y polisi, arferion neu ganllawiau. Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a adolygir yn cael ei gyhoeddi gydag unrhyw ddiweddariadau i'r dystiolaeth o effaith, a byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gefnogi hawliau plant wrth i ni symud i'r cam gweithredu. Ein bwriad yw adolygu a diweddaru'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn barhaus wrth i bolisi a deddfwriaeth ddatblygu dros y blynyddoedd nesaf. Bydd adolygiadau parhaus o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn helpu i lywio camau gweithredu yn y dyfodol ac adolygiadau o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed.


## B. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i'r strategaeth newydd, gyda'r targed o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd wedi'i chynnwys yn un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth statudol i ystyried yn llawn effeithiau ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut mae ein polisïau'n effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema gydgysylltiedig i strategaeth Cymraeg 2050:



Mae’r penawdau o dan bob thema yn amlinellu cwmpas gweithgareddau sy’n gallu effeithio ar yr iaith.

Yn gyffredinol, os oes gan eich polisi’r potensial i effeithio ar bobl, bydd yn effeithio mewn rhyw ffordd ar siaradwyr Cymraeg ac felly ar y Gymraeg.

1. Cyfeirnod yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau’r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@gov.wales: 01/06/2025.

2. A yw’r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr Cymraeg a’r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026? Rhaglen waith Cymraeg 2050 2021/2026

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw gweld y Gymraeg yn ffynnu, gyda chynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd. Mae'r strategaeth hon a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn datgan bod y Gymraeg yn flaenoriaeth strategol i Lywodraeth Cymru.

Rydym am weithio gyda'n partneriaid i ddatblygu atebion ymarferol i'r rhwystrau y gallai rhieni eu hwynebu wrth gael gafael ar y gofal plant sydd ei angen arnynt i allu gweithio, gan gynnwys sicrhau bod digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael. Mae ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar yn un o nodau allweddol ein Strategaeth Iaith Gymraeg, *Cymraeg 2050*.

Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn nodi'n glir bod y Blynyddoedd Cynnar a phlentyndod yn feysydd ffocws allweddol ar gyfer cyrraedd y targed hwn. Mae'n amlygu pwysigrwydd y sector blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad cynnar i addysg drochi, ac i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg. Nod Llywodraeth Cymru yn y tymor hir yw i'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar gyrraedd sefyllfa lle mae plant o dan bump oed wedi cael cyswllt digonol â'r Gymraeg i allu cychwyn ar eu taith at fod yn rhugl.

Mae'r holl newidiadau arfaethedig yn cynnwys yr ymgyrch i gefnogi gofal plant hygyrch o ansawdd uchel sy’n cael ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru a’i gefnogi gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i sicrhau cydymffurfiaeth â’r rheoliadau.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn rhagweld unrhyw effeithiau niweidiol ar y Gymraeg o ganlyniad i unrhyw newidiadau arfaethedig i’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi’i Reoleiddio i blant hyd at 12 oed. Mae gofynion y Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg yn debygol o aros yr un fath, neu gael eu cryfhau. Bydd y newidiadau arfaethedig yn helpu darparwyr gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig i fodloni’r Safonau, cael gwared ar rwystrau diangen a chefnogi cynaliadwyedd parhaus y

sector. Bydd y rhain yn cynnwys lleoliadau cyfrwng Cymraeg, lleoliadau dwyieithog a chyfrwng Saesneg, y bydd angen i bob un ohonynt fodloni canlyniadau sy'n cyd-fynd ag ansawdd a chynhwysiant, a'r angen i roi sylw i'r Gymraeg.

Mae elfennau uniongyrchol o'r cynnig fel darparu hyblygrwydd ar draws y sector mewn perthynas â gofynion cymwysterau a chymarebau yn dangos cysylltiad uniongyrchol â thema 2 "*cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg*" gan ei fod yn ymwneud â chynaliadwyedd y sector gyda ffocws cryf ar fynd i'r afael â heriau presennol y gweithlu. Dyma enghreifftiau penodol o hyn:

- **Safonau Gwaith Chwarae Mynediad Agored** - Creu set o safonau Gwaith Chwarae Mynediad Agored cymesur a darparu hyblygrwydd i'r gofynion cymhwyso penodol ar gyfer cymorth cyntaf yn amodol ar gynnal asesiadau risg ochr yn ochr â gwneud mân newidiadau i ganrannau'r staff sydd â chymwysterau penodol. Drwy gynnig dull gweithredu mwy cymesur ar gyfer y math hwn o ofal plant, bydd effeithiau cadarnhaol o ran cost, recriwtio a chyflogadwyedd gyda'r nod cyffredinol o atal gostyngiad yn y niferoedd cofrestredig a gweithio at y nod o gynyddu nifer y gwasanaethau cofrestredig a darparu mynediad i fwy o blant at fannau chwarae diogel sy'n cael eu staffio gan unigolion cymwys, nad ydynt ar gael ar hyn o bryd.

- **Canllawiau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cynorthwywyr Gwarchod Plant - Safon 13: Person Addas (GP) ac Atodiad A** - Bydd rhoi hyblygrwydd i gynorthwywyr gwarchod plant yn helpu i gynnal parhad yn y sector gwarchod plant. Bydd y cynnig yn golygu y gellir cyflogi cynorthwywyr gwarchod plant i ddechrau heb gymhwyster ffurfiol a'u bod yn gweithio at ennill y cymhwyster gofynnol o fewn cyfnod o 6 mis. Fodd bynnag, ystyriwyd cafeat, gyda diwygiadau i Safon 13.4(GP) na ellir gadael cynorthwywyr gwarchod yn gyfrifol am blant ar eu pen eu hunain hyd nes y ceir y cymhwyster. Bydd hyn yn helpu i liniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynorthwyydd yn gweithio heb y cymwysterau angenrheidiol am gyfnod byr ar ôl cael ei gyflogi. Bydd y diwygiad hwn i ganiatáu cyflogi cynorthwywyr gwarchod plant heb gymhwyster ffurfiol ar yr amod eu bod yn gweithio at gyflawni'r cymhwyster gofynnol yn helpu i leddfu'r pwysau ar recriwtio. Ar ben hynny, rydym yn bwriadu ymgynghori ar y cyfnod hiraf y gellir gadael cynorthwyydd gwarchod plant yn llwyr gyfrifol am blant i fod yn ddim mwy na dwyawr y dydd. Bydd hyn yn cefnogi gwarchodwyr plant i reoli eu hymarfer drwy eu galluogi i benodi cynorthwyydd i gefnogi a gwella'r ddarpariaeth i blant. Bydd y naill newid a'r llall yn sicrhau bod gwarchodwyr plant yn gallu dod yn fusnesau ffyniannus ynddynt eu hunain a pharhau mewn cyflogaeth.

- **Cymarebau (Gwarchod Plant): Safon 15 (GP) -** Bydd diwygio'r cymarebau gwarchod plant cyfredol ar gyfer plant o dan 5 oed drwy ychwanegu un plentyn arall o dan 5 oed (ond nid o dan 18 mis oed), i'w dosbarthu'n blentyn dros 5 oed yn ystod gwyliau'r haf cyn hyn at ddibenion y cymarebau sy'n berthnasol i warchodwyr plant, yn helpu i ddarparu hyblygrwydd. Ar ben hynny, pan fydd plant sydd i fod i ddechrau ysgol / addysg statudol amser llawn ym mis Medi yn ogystal â phlant 3-5 oed sy'n mynychu darpariaeth addysgol neu gyfuniad o ddarpariaeth addysgol a

gofal plant cofleidiol yn ystod oriau ysgol mewn lleoliad arall am bum awr neu fwy y dydd, efallai y byddant hefyd yn cael eu dosbarthu'n blant dros 5 oed at ddibenion y cymarebau sy'n berthnasol i warchodwyr plant, a fydd hefyd yn helpu i ddarparu rhagor o hyblygrwydd. Bydd y newidiadau hyn yn helpu i gefnogi cynaliadwyedd y sector gwarchod plant drwy fynd i'r afael â'r dirywiad diweddar amlwg a chynnig hyblygrwydd o ran y cymarebau oedolion i blant ar gyfer plant dan 5 oed.

Bydd ystyried cynigion penodol i gefnogi hyblygrwydd ar draws y sector gofal plant a gwaith chwarae yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau presennol o ran recriwtio a chadw'r gweithlu. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg, lle mae'r gweithlu'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi plant i gymryd eu camau cyntaf at ddwyieithrwydd.

3. **Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg ac eglurwch sut byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau i'r Gymraeg.**

Mae mynediad at ofal plant a gwaith chwarae dwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn gyfle i blant gymdeithasu a chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyfleoedd gofal plant a chwarae cyfrwng Cymraeg hefyd yn cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg gan fod plant sy'n cael gofal plant cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o ddewis, a symud ymlaen i ysgolion cyfrwng Cymraeg na'r rhai mewn darpariaeth cyfrwng Saesneg. Gall cyfleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r ysgol hefyd gefnogi datblygiad cyfrwng Cymraeg plant.

Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar yn un o nodau allweddol ein Strategaeth Iaith Gymraeg, *Cymraeg 2050*. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar gynaliadwyedd y sector ac ar gael gweithlu digon o faint a chymwys. Mae'r sectorau gofal plant a chwarae yn wynebu problemau recriwtio a chadw a chydnabyddir yr her barhaus hon yn genedlaethol, gan gynnwys y rheini sy'n siarad Cymraeg, i weithio gyda phlant yn y sector gofal plant a gwaith chwarae. Gwaethygir y materion hyn ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg o ystyried y gronfa lai o ddarpar recriwtiaid sydd â sgiliau iaith Gymraeg. Gall hyn fod yn arbennig o amlwg os ydynt yn cael trafferth dod o hyd i ddigon o staff sy'n siarad Cymraeg i fodloni'r gofynion a nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir.

Mae'r ymgynghoriad ar gyfer yr adolygiad o'r Safonau 2025 wedi'i strwythuro'n feysydd pwnc sy'n cynnwys cwestiynau am newidiadau arfaethedig a chwestiynau ymgysylltu i gefnogi datblygu polisi yn y dyfodol (mae cynigion ar gael yn Adran 1 yr Asesiad Effaith Integredig). Bydd y cwestiynau rydym wedi'u datblygu ar gyfer yr ymgynghoriad yn casglu barn am sut gallai'r newidiadau arfaethedig effeithio ar yr iaith Gymraeg a darpariaeth Gymraeg. Mae rhagor o fanylion am bob cynnig a chwestiynau'r ymgynghoriad ar gael yn nogfen ategol yr Ymgynghoriad ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Bydd y cynigion a nodir mewn perthynas â Gwaith Chwarae Mynediad Agored a safonau 13 a 15 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n ymwneud â chymwysterau a chymarebau gwarchodwyr plant a'u cynorthwywyr yn darparu hyblygrwydd ar draws y sector. Bwriedir iddynt hefyd gefnogi a mynd i'r afael â'r heriau presennol o ran recriwtio a chadw'r gweithlu a fydd, yn eu tro, yn effeithio'n gadarnhaol ar y sector, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd newidiadau arfaethedig eraill fel diwygio strwythur a chyflwyniad y Safonau yn cynnwys cyflwyno'r ddogfen mewn fersiwn gwe HTML i wella hygyrchedd a chefnogi llywio haws i ddefnyddwyr. Bydd y fersiwn ar-lein hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a fydd yn cefnogi'r rheini sy'n dymuno cael gafael ar yr wybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys darparwyr a rhieni. Bydd gwybodaeth sydd eisoes wedi'i darparu am y Safonau fel rhai gofynnol y disgwylir rhagori arnynt, yn cael ei chryfhau drwy gynnwys dolenni i ganllawiau a phecynnau arferion gorau ar sut i sicrhau darpariaeth dda neu ragorol.

Bydd y cynnig i ddarparu set annibynnol gymesur o safonau ar gyfer lleoliadau 'Chwarae Mynediad Agored' hefyd yn cefnogi dull mwy cytbwys o gofrestru ac arolygu ar gyfer y lleoliadau hyn. Gall hyn gynyddu'r ddarpariaeth mynediad agored gofrestredig, a allai arwain at gynnydd yn nifer y cyfleoedd chwarae mynediad agored cofrestredig cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog sydd ar gael.

Bydd y cynigion yn cefnogi'r sector, gan gynnwys nifer o leoliadau cyfrwng Cymraeg ledled Cymru, fel Cylchoedd Meithrin, i barhau i weithredu. Mae 'Cylchoedd Meithrin' a gwasanaethau a ddarperir gan y Mudiad Meithrin a rhanddeiliaid allweddol eraill yn cefnogi'r strategaeth genedlaethol Cymraeg 2050 drwy ddarparu gofal meithrin Cymraeg, datblygu cyfleoedd i blant ledled Cymru dderbyn gofal a gwasanaethau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Mae'r lleoliadau hyn yn ffurfioli prif ffrydio'r Gymraeg ac yn darparu cyfleoedd i gynnal a chryfhau rôl y sector cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Yn ogystal, gall amlygiad cynnar i'r Gymraeg a chyfleoedd gefnogi plant mewn lleoliadau ar draws sector y blynyddoedd cynnar i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac ehangu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae lleoliadau blynyddoedd cynnar yn gallu cynnig y dull trochi **'Croesi'r Bont'** sy'n cael ei ddefnyddio i gyflwyno'r Gymraeg i'r plant ifanc. Ar ben hynny, mae gweithgareddau chwarae a gynhelir yn ddwyieithog ac yn Gymraeg yn annog ac yn cefnogi plant i ddatblygu hyder wrth gyfathrebu yn Gymraeg. Yn yr amgylchedd hwn, gall plant ddatblygu eu sgiliau iaith drwy gwricwlwm cyflawn sy'n cynnwys cyfleoedd ar gyfer chwarae rhydd a strwythuredig, ochr yn ochr â rhaglen trochi iaith.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r camau gweithredu yn ein Strategaeth Iaith Gymraeg, cynllun Cymraeg 2050 ac mae'n canolbwyntio ar gefnogi rhagor o ofal plant cyfrwng Cymraeg i deuluoedd ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys y camau canlynol:

- Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid i CWLWM i gefnogi'r sector gofal plant a chwarae i gynyddu argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi yn y gweithlu ac adeiladu lleoliadau newydd.

- Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid i awdurdodau lleol i gefnogi'r sector Gofal Plant a chwarae drwy'r Grant Plant a Chymunedau. Diben y cyllid yw mynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd mewn Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant a gellir ei ddefnyddio'n hyblyg i ddiwallu anghenion cymunedau lleol. Anogir awdurdodau lleol i roi ystyriaeth arbennig i deuluoedd sy'n dymuno cael darpariaeth Gymraeg. Cynhelir adolygiad o broses Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant i gael gwell dealltwriaeth wrth fynd i'r afael â bylchau a heriau presennol darpariaethau gofal plant ledled Cymru. Mae hyn yn helpu i wella'r broses o nodi'r galw a'r cyflenwad o ofal plant, gan gynnwys y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ei hangen i ddiwallu anghenion teuluoedd yn y dyfodol.

- Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gydag arweinwyr gofal plant mewn awdurdodau lleol i sicrhau bod cynlluniau i ehangu'r Gymraeg yn cael eu cefnogi.

- Darperir cyllid Llywodraeth Cymru i'r Mudiad Meithrin fel rhan o gyllid CWLWM i gefnogi twf y gweithlu cyfrwng Cymraeg, a gellir talu i staff Cylchoedd Meithrin neu ofal plant cyfrwng Cymraeg ymgymryd â hyfforddiant lefel 3 a lefel 5 drwy raglen cymwysterau gofal plant Cymraeg Cam wrth Gam.

- Drwy gymorth gan Lywodraeth Cymru, mae'r Mudiad Meithrin yn cynnig grantiau drwy 'SaS' (Sefydlu a Symud) i ehangu lleoliadau presennol a chefnogi'r broses o sefydlu darpariaethau newydd.

- Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi lleoliadau blynyddoedd cynnar i gynnig y dull trochi iaith '**Croesi'r Bont**' sy'n rhoi cymorth trochi iaith i leoliadau newydd ac mae'n cael ei ddefnyddio'n benodol i gefnogi sgiliau Cymraeg yn y gweithlu a chyflwyno'r Gymraeg i blant ifanc.

- Mae'r Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar ar gael i'r holl ddarparwyr gofal plant a chwarae gan gynnwys Cylchoedd Meithrin. Bydd y rhaglen hon yn parhau dros y tair blynedd nesaf hyd at fis Mawrth 2028 ac mae'n helpu i sicrhau bod y sector gofal plant yng Nghymru'n cael ei gryfhau a'i gefnogi, ac mae'n pwysleisio'n benodol ar gryfhau darpariaethau Cymraeg.

Mae ein huchelgais ar gyfer gweithlu proffesiynol a chynaliadwy yn canolbwyntio ar ddeall y bydd adolygu a gwneud newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn helpu i leddfu rhywfaint o'r pwysau ar ddarparwyr drwy eu cefnogi i fodloni'r gofynion angenrheidiol a

pharhau i gefnogi cynaliadwyedd y sector. Yn ei dro, bydd hyn yn dylanwadu’n gadarnhaol ar ganlyniadau i blant a’u datblygiad, gan eu helpu i gyflawni eu llawn botensial.

Mae’r cynigion yn cefnogi ein huchelgais am weithlu proffesiynol a chynaliadwy i’r rheini ym maes gofal plant a gwaith chwarae, gyda gweledigaeth tymor hir o gefnogi a datblygu’r broses o gyflogi staff ar draws lleoliadau, a chaniatáu iddynt weithio yn y gweithlu gofal plant ac aros yno. Mae gan unigolion sy’n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a chwarae ledled Cymru rôl yn y gwaith o ddarparu cyfleoedd i blant ddysgu a defnyddio’r Gymraeg, ac mae’r cynigion yn ein galluogi i ganolbwyntio uchelgeisiau ein polisi’n gliriach ar ddatblygu gweithlu sy’n gallu cefnogi siaradwyr Cymraeg y dyfodol.

Mae'r ymgynghoriad yn ceisio cydnabod a gwerthfawrogi barn y rhai sy'n cymryd rhan yn y broses ymgynghori.